# CYNLLUN CREU LLEOEDD QUEENSFERRY

creu lleoedd SIRYFFLINT

Roberts Limbrick

chris jones

creu lleoedd SIRYFFLINT

Trawsnewid Trefi
Transforming Towns

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Wedi ei ariannu gan
Llywodraeth y DU

Funded by
UK Government

Paratowyd y ddogfen hon ar ran:

Cyngor Sir y Fflint

Paratowyd y ddogfen hon gan:

Chris Jones
Regeneration

15 Stryd Nevill
Y Fenni
Sir Fynwy
NP7 5AA

chris@chrisjones.studio
Ffôn: 01873 880666
Symudol: 07968943084

Roberts Limbrick
Architects

1 Gold Tops
Casnewydd
NP20 4PG

mail@robertslimbrick.com
Ffôn: 0333 405 500

Rhif Prosiect: 11648
Cyhoeddwyd: Hydref 2025
Adolygiad: V1

Hawlfraint
Cafodd yr holl gynlluniau eu hatgynhyrchu o'r Map Arolwg Ordnans gyda chaniatâd Rheolwr Llyfrfa Ei Fawrhydi. Cedwir hawlfraint y Goron.

# CYNNWYS

**01: Diben**

Beth yw diben y cynllun creu lleoedd hwn? .......5

**02: Pam Cynllun Creu Lleoedd?**

Beth yw Creu Lleoedd? ............................7

**03: Ein Proses Creu Lleoedd**

Ein Proses Creu Lleoedd ..........................10

**04: Deall y Lle**

Hanes Queensferry ........................12
Tirwedd a Chefndir Polisi ..................13
Proffil Cymunedol ac Economaidd ....... 37
Dadansoddiad o Ffryntiad Strydoedd .....41
Crynodeb o ‘Give my View’ ............... 42
Y Lle – Cefndir a Lleoliad .................. 44
Symudiad ............................... 45
Asedau Lleol ............................ 46
Porth i Queensferry....................... 47
Graen trefol – croesi’r ffordd .............. 48
Cyfleoedd a Chyfyngiadau ............... 49
Dadansoddiad o Ganol y Dref..............51
Dadansoddiad SWOT - Lle ................ 52
Dadansoddiad SWOT - Pobl .............. 54
Fframwaith Cyfleoedd .................... 56
Canol y Dref ............................ 56
Ardal Ganolog ........................... 56
Porth Dwyreiniol ......................... 56

**05: Adeiladu ar ei Sylfaen**

Blaenoriaethau/Themâu sy’n dod i’r Amlwg ......... 58
Gweledigaeth, Nodau ac Amcanion Strategol ....... 63
Cyfleoedd Lle a Phobl ............................... 65
Tref Groesawgar Queensferry – Creu Argraff Gyntaf Gref ................................................ 67
Dathlu Hanes a Chymeriad Queensferry ............ 69
Stryd Lawn Gweithgarwch ........................... 71
Mynd i’r afael â Safleoedd ac Adeiladau Segur ...... 73
Cymryd Balchder mewn Mannau Cyhoeddus ....... 75
Dathlu Bywyd Lleol ac Ysbryd Cymunedol ........... 76
Lle ar gyfer Dysgu a Datblygu Sgiliau .................77
Tyfu Tref Wyrddach yn Queensferry ................. 78
Dangos Llwyddiant ................................. 79
Ffyrdd o Weithio .................................... 84

# 01:

# DIBEN

## BETH YW DIBEN Y CYNLLUN CREU LLEOEDD HWN?

Diben y Cynllun Creu Lleoedd hwn yw nodi'r anghenion, y weledigaeth, y dull a'r fframwaith cyfleoedd a fydd yn helpu cynllunio a chyflawni gweithgarwch a buddsoddiad seiliedig ar le yn Queensferry. Er ei fod yn canolbwyntio ar ganol y dref, mae'r Cynllun yn edrych hefyd ar y berthynas ehangach gyda'i gymdogaethau a'i drigolion. Mae Queensferry yn un o saith o drefi ledled Sir sy'n cael Cynllun Creu Lleoedd wedi'i ddatblygu ar eu cyfer, sy'n cynnwys hefyd Bwcle, Cei Connah, y Fflint, Treffynnon, yr Wyddgrug a Shotton.

Mae'r Cynllun Creu Lleoedd hwn yn helpu i ddangos ac adnabod anghenion lleol, ac felly rhoi tystiolaeth i sefydliadau cyflawni strategol wrth gydgyfeirio gwasanaethau o ddydd i ddydd, yn ogystal â throsoli cyllid grant ar gyfer prosiectau adfywio yn y dyfodol. Mae hefyd yn nodi ffyrdd o weithio sy'n pontio partneriaethau strategol a lleol a fydd yn helpu meithrin datblygu a gweithredu prosiectau ar y cyd a chynaliadwyedd mwy hirdymor tref fel Queensferry.



# 02:

# PAM CYNLLUN CREU LLEOEDD?

# BETH YW CREU LLEOEDD?

Mae Llywodraeth Cymru'n diffinio creu lleoedd fel: "ffordd holistig o fynd ati i gynllunio a dylunio datblygiadau a lleoedd, sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau positif. Mae'n tynnu ar botensial ardal i greu datblygiadau a mannau cyhoeddus o ansawdd uchel sy'n hyrwyddo ffyniant, iechyd, hapusrwydd a llesiant pobl yn eu hystyr ehangaf.

Mae creu lleoedd yn ystyried y cyd-destun, swyddogaeth a'r berthynas rhwng safle datblygiad a'i amgylchedd ehangach. Bydd hyn yn wir am ddatblygiadau mawr sy'n creu lleoedd newydd yn ogystal â datblygiadau bach sy'n cael eu creu o fewn lle ehangach.

Ni ddylai creu lleoedd ychwanegu cost ychwanegol at ddatblygiad, ond bydd yn gofyn am feddwl craff, aml-ddimensiwn ac arloesol i'w weithredu a dylid ei ystyried ar y cam cynharaf bosibl. Mae creu lleoedd yn ychwangu gwerth cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol at gynigion datblygu gan arwain at fuddion sy'n mynd y tu hwnt i ffin datblygiad ffiseol ac sy'n ymwreiddio gwydnwch ehangach mewn penderfyniadau cynllunio."

Mae Canllawiau Creu Lleoedd Comisiwn Dylunio Cymru 2020 yn trafod yr angen am ddull holistig sy'n ystyried lleoedd cyfan yn hytrach na defnydd o ddarnau penodol o dir neu bob datblygad ar ei ben ei hun. Cafodd y cysyniad o greu lleoedd ei ddatblygu mewn ymateb i deimlad o 'nunlle', o unffurfiaeth o fewn yr amgylchedd adeiledig lle mae datblygiad newydd yn brin o hunaniaeth a chymeriad penodol, teimlad o gymuned na chydberchnogaeth. Mae creu lleoedd wedi tyfu mewn pwysigrwydd wrth i'r cysylltiadau ag iechyd a llesiant gael eu harchwilio a'u deall yn fwy trylwyr.

### Sut mae Cynllun o Gymorth i Greu Lleoedd Da?

Er nad Cynllun Creu Lleoedd yw'r unig ateb i reoli newid a rhoi cyfeiriad i dref fel Queensferry, mae'n bwysig fframio dyheadau hirdymor a hefyd meithrin perthynas rhwng y lle, y bobl, a'r gweithgareddau. Y nod yma yw gwneud y cyfan yn rhywbeth mwy na chyfanswm ei rannau. Mae strategaeth a chynllun hirdymor hefyd yn sicrhau bod materion ymarferol wedi cael eu hystyried a bod cynllun y lle yn gallu cynnwys yr amrediad tebygol o'r dibenion gofynnol yn y pen draw. Mae Cynllun yn ymwneud hefyd â chreu lle ac nid dim ond â dyluniad gan ei fod yn ymwneud â chreu a datblygu profiad mae pobl yn teimlo'n gysurus ynddo a'u bod yn cael eu croesawu iddo.

Dylid datblygu gweithgareddau creu lleoedd hirdymor gan ymgynghori â'r gymuned gan mai hwy yw'r arbenigwyr lleol a all gynnig barn a dealltwriaeth werthfawr o hanes, diwylliant, a swyddogaeth yr ardal, neu unrhyw agwedd sy'n golygu rhywbeth i'r bobl.


### Y Gofynion

Ym mis Mai 2022, fe wnaeth Llywodraeth Cymru hi'n ofynnol i Awdurdodau Lleol ledled Cymru ddatblygu Cynlluniau Creu Lleoedd yn unol â chwe egwyddor Creu Lleoedd Comisiwn Dylunio Cymru https://dcfw.org/creulleoedd.


Mae disgwyl i Gynlluniau Creu Lleoedd fod yn rhai y gellir eu cyflawni ac iddynt cael eu hadolygu'n rheolaidd a chynnwys gweledigaeth a rennir ar gyfer pob canol tref trwy broses drylwyr o gyd-drafod ac ymgynghori ag amrywiaeth helaeth o randdeiliaid a fydd yn arwain at y canlynol:

- Adnabod heriau mae'r dref yn eu hwynebu, er enghraifft yn ymwneud â thrafnidiaeth, teithio llesol, seilwaith gwyrdd, tai ac iechyd.
- Dadansoddi cryfderau, gwendidau, cyfleoedd a bygythiadau i ganol y dref a'i berfformiad.
- Sefydlu data llinell sylfaen ar gyfer canol y dref.
- Adnabod ffin glir sy'n diffinio craidd canol y dref yn ogystal ac ymylon y dref.
- Cysoni â chynlluniau lleol a rhanbarthol, strategaethau, a blaenoriaethau eraill.
- Deall materion fel lefel darpariaeth manwerthu a'r potensial ar gyfer ailganolbwyntio at gynnig cryfach / addasu safleoedd canol y dref at ddibenion eraill lle bo'n addas.

Mewn ymateb i gais Llywodraeth Cymru am Gynlluniau Creu Lleoedd, mae Tîm Adfywio Cyngor Sir y Fflint wedi datblygu a chytuno ar ddull o gydlynu datblygiad Cynlluniau Creu Lleoedd ar gyfer 7 o drefi ar draws y Sir: Bwcle, Cei Connah, Y Fflint, Treffynnon, Yr Wyddgrug, Queensferry a Shotton. Cafodd amserlen ei chytuno gyda Chabinet Cyngor Sir y Fflint i gyflawni'r gwaith ar gyfer 7 Cynllun Creu Lle mewn 3 cham ar wahân, gyda'r cyntaf yn canolbwyntio ar drefi Bwcle, Treffynnon a Shotton yn 2023-24. Dros y 18 mis dilynol, 2024 i 2025, cafodd Cynlluniau Creu Lleoedd eu datblygu ar gyfer cam 2 y rhaglen waith (trefi Cei Connah a Queensferry) ac mae gwaith wedi cael ei gomisiynu ar gyfer cam 3 yn 2025-26 (trefi'r Fflint a'r Wyddgrug).




*Llun: Canllaw i Greu Lleoedd*




*Llun: Canllaw i Greu Lleoedd*

# 03: EIN PROSES CREU LLEOEDD

# EIN PROSES CREU LLEOEDD

Mae Proses Creu Lleoedd Sir y Fflint wedi mabwysiadu dull o fuddsoddi mewn gwaith desg sydd wedi casglu gwybodaeth gan amryw o arbenigwyr mewn masnach, eiddo, ansawdd amgylcheddol, dadansoddi economaidd-gymdeithasol a chyda pwyslais penodol ar seilwaith gwyrdd. Mae'r Cyngor Sir gyda phartneriaid lleol hefyd wedi arwain at ymgynghori â rhanddeiliaid ac â'r gymuned, gan ddefnyddio cyfuniad o gysylltu wyneb yn wyneb ac yn ddigidol er mwyn sicrhau cael nifer a thrawstoriad digonol o safbwyntiau.

Mae'r dull hwn o ymchwilio ar y cyd i Queensferry fel lle wedi cael ei grynhoi'n Gynllun Creu Lleoedd sydd wedi ymateb i anghenion y lle, gan ddangos y ddadansoddiad SWOT (Cryfderau, Gwendidau, Cyfleoedd a Bygythiadau), themâu allweddol i'w hystyried sy'n arwain at weledigaeth benodol ar gyfer y lle, set o nodau ac amcanion a fframwaith cyfleoedd. Mae'r fframwaith hwn yn rhoi cyfeiriad ar gyfer troi cyfleoedd yn weithredoedd law yn llaw â phartneriaid strategol a lleol yn ymrwymo i gydgyflawni a gweithio mewn partneriaeth.

### Cam 1 – Casglu Gwybodaeth a Data

- **Archwiliad Seilwaith Gwyrdd**

### Cam 2 – Gwrando ar Farn y Gymuned a Rhanddeiliaid

- **Ymgynghori â'r Cyhoedd**
- **Ymgynghori â Rhanddeiliaid**
- **Ymchwil i Ganfyddiadau o Queensferry**

### Cam 3 – Addasu Gweledigaeth, Blaenoriaethau a Fframwaith y Cynllun Creu Lleoedd

- **Adolygiad Polisi a Strategaeth**
- **Dadansoddi'r Lle**
- **Dadansoddi'r Bobl**
- **SWOT a Themâu**
- **Gweledigaeth, Nodau ac Amcanion**
- **Fframwaith Cyfleoedd**
- **Dangos Llwyddiant**
- **Ffyrdd o Weithio**

# 04:

# DEALL Y LLE

## HANES QUEENSFERRY

Mae enw Queensferry yn deillio o'r llongau fferi a groesai Afon Dyfrdwy. Mae anheddiad Y Fferi Uchaf (Higher Ferry) bellach yn cael ei adnabod fel Saltney, a châi Queensferry ei adnabod fel Y Fferi Isa (Lower Ferry). Newidiwyd enw'r dref i Kingsferry ar adeg coroni'r Brenin Siôr IV yn frenin y Deyrnas Unedig yn 1820, a daeth yn Queensferry ar achlysur coroni'r Frenhines Victoria yn 1837.

Mae gan y dref Sefydliad Coffa yn hytrach na senotaff fel cofeb ryfel. Mae'n adeilad du a gwyn rhychog ger y fynedfa i Asda o ffordd yr arfordir. Mae'r Bont Jiwbilî, a elwir hefyd y Bont Las, yn rhychwantu Afon Dyfrdwy. Mae'n bont o fframwaith metel y gellir ei chodi a'i gostwng.

Roedd Queensferry yn cael ei wasanaethu hefyd gan orsaf drenau ar Reilffordd Arfordir Gogledd Cymru rhwng 1864 a 1966. Er nad yw'r orsaf yn gweithredu mwyach, mae'r dref yn dal i gynnwys olion ei gorffennol rheilffordd, ac mae'n hawdd dychmygu prysurdeb a bwrlwm teithwyr trên yn y gorffennol.

I grynhoi, mae Queensferry yn dref gyda hanes cyfoethog a gorffennol diddorol sy'n dal yn amlwg yn ei thirnodau a'i strwythurau. Mae'n dref sydd â chysylltiadau da, ac mae'r rhwyddineb mynediad yn ei gwneud yn lleoliad deniadol i ymwelwyr a thrigolion.





chris jones
creu lleoedd SIR Y FFLINT

# TIRWEDD A CHEFNDIR POLISI

## CENEDLAETHOL

- Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol
- Polisi Cynllunio Cymru 2024
- Strategaeth Drafnidiaeth Cymru
- Teithio Llesol Cymru
- Dyfodol Cymru – y Cynllun Cenedlaethol 2040
- Canllaw Creu Lleoedd 2020
- Canol Trefi: Datganiad Sefyllfa 2023

## RHANBARTHOL

- Gweledigaeth Twf Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru
- Cynllun Adfywio Gogledd Cymru 2018-2035
- Strategaeth a Chynllun Pobl: Mewn Undod mae Nerth Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr
- Actif Gogledd Cymru: Strategaeth 10 Mlynedd 2023-2033

## LLEOL

- Cynllun y Cyngor 2022-23
- Cynllun Llesiant 2022-23
- Strategaeth Newid Hinsawdd 2022-30
- Cynllun Rheoli Asedau Strategol
- Cefnogi Natur yn Sir y Fflint 2016
- Strategaeth a Chynllun Gweithredu Tai Sir y Fflint 2019-24
- Cynllun Datblygu Lleol Sir y Fflint 2015-2030

Mae cyd-destun polisi ar gyfer lle fel Queensferry yn bwysig gan ei fod yn dangos y berthynas â blaenoriaethau cenedlaethol, rhanbarthol a lleol. Mae'n rhoi cyfeiriad a chysondeb strategol, sicrhau cysondeb ag agendâu ehangach, and yn amlygu'r cyfleoedd a'r cyfyngiadau a allai ddylanwadu ar ei ddatblygiad yn y dyfodol.

## CENEDLAETHOL

### Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (2015)

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn rhoi dyletswydd ar gyrff cyhoeddus i gyflawni datblygu cynaliadwy.

Nid yw hyn yn gysyniad newydd i'r system gynllunio gan fod egwyddorion datblygu cynaliadwy wedi bod yn rhan greiddiol o bolisi cynllunio ers i Bolisi Cynllunio Cymru gael ei gyhoeddi gyntaf yn 2002. Fodd bynnag, mae'r cysyniad wedi cael ei ehangu o dan y Ddeddf Llesiant ac mae'n gofyn am welliant yn y ffordd y gweithredir pob un o bedair agwedd llesiant, sef yr agweddau cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol.


Mae'r Ddeddf Llesiant wedi sefydlu saith nod llesiant a'u bwriad yw llywio gwaith pob corff cyhoeddus yng Nghymru.

Er mwyn dangos bod ystyriaeth addas wedi ei rhoi i'r nodau llesiant ac egwyddor datblygu cynaliadwy yn y broses o wneud penderfyniadau, mae'n ofynnol i gyrff cyhoeddus roi sylw i'r 'pum ffordd o weithio' yn y Ddeddf Llesiant. Mae'r rhain yn gofyn am ystyried: cynnwys; cydweithio; integreiddio; atal; a ffactorau hirdymor.

### Polisi Cynllunio Cymru Rhifyn 12 – Chwefror 2024

Mae Polisi Cynllunio Cymru yn nodi polisïau cynllunio defnydd tir Llywodraeth Cymru. Mae'n cael ei ategu gan gyfres o Nodiadau Cyngor Technegol (TANs), Cylchlythyrau Llywodraeth Cymru, a llythyrau eglurhad polisi, sydd, ynghyd â Pholisi Cynllunio Cymru yn darparu'r fframwaith polisi cynllunio cenedlaethol ar gyfer Cymru. Mae Polisi Cynllunio Cymru, y Nodiadau Cyngor Technegol, Nodiadau Cyngor Technegol Mwynol a llythyrau egluro polisi yn ffurfio polisi cynllunio cenedlaethol. Prif amcan Polisi Cynllunio Cymru yw sicrhau bod y system gynllunio yn cyfrannu tuag at ddatblygu cynaliadwy ac yn gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru, fel sy'n ofynnol gan Ddeddf Cynllunio (Cymru) 2015, Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a deddfwriaeth allweddol eraill a dyletswyddau canlyniadol fel y Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol.

Rhaid i bawb sy'n ymwneud â'r system gynllunio yng Nghymru neu'n gweithredu ynddi ymdrin â'r cysyniad o greu lleoedd mewn penderfyniadau cynllunio a rheoli datblygu er mwyn sicrhau creu lleoedd




cynaliadwy a gwella llesiant cymunedau. Lleoedd Cynaliadwy yw nod y system gynllunio defnydd tir yng Nghymru; maent yn ganlyniad y system gynllunio yn hytrach na'r broses o'u cyflawni. Dylai pob penderfyniad datblygu, boed drwy gynlluniau datblygu, dewisiadau polisi neu benderfyniadau rheoli datblygu unigol geisio cyfrannu tuag at wneud lleoedd cynaliadwy a gwella llesiant. Dylai'r system gynllunio greu lleoedd cynaliadwy sy'n ddeniadol, cymdeithasol, hygyrch, gweithredol, diogel, croesawgar, iach a chyfeillgar. Gall lleoedd unigol fod ar sawl ffurf, a bydd dehongli'r hyn sy'n gwneud lle da yn amrywio. Bydd gan bob lle ei nodweddion, ei hanes a'i hunaniaeth unigryw ei hun, yn seiliedig ar sut mae, a sut y bydd, pobl yn rhyngweithio â'r tirwedd

a'r treflun. Mae'r synnwyr hwn o 'le' yn amrywio, o ardaloedd gwledig cefn gwlad sy'n darparu sail economaidd i amaethyddiaeth a thwristiaeth ffynnu, i ardaloedd trefol sy'n esblygu'n barhaus ac sy'n rhoi canolbwynt i ddatblygiadau sylweddol yn gymdeithasol ac economaidd. Mae gwerth cynhenid lle i bobl neu gymunedau yn neilltuol o bwysig, a all fod am resymau esthetig, diwylliannol, ysbrydol neu hanesyddol ac awdurdodau cynllunio sydd yn y sefyllfa orau i ddeall y rhain.

## Canol Trefi – Datblygiadau Manwerthu a Masnachol

Mae Llywodraeth Cymru yn nodi nifer o amcanion cyffredinol ar gyfer canolfannau manwerthu a masnachol, a dylai awdurdodau cynllunio geisio eu cyflawni trwy eu cynlluniau datblygu a'u penderfyniadau rheoli datblygu gan sicrhau eu bod yn cyfrannu cymaint ag y medrant at y nodau llesiant. Mae'n rhaid i'r system gynllunio:

- Hyrwyddo canolfannau manwerthu a masnachol trefol a gwledig hyfyw fel y lleoliadau mwyaf cynaliadwy i fyw, gweithio, siopa, cymdeithasu a gweithredu busnes;
- Cynnal a gwella bywiogrwydd, hyfywedd a dengarwch canolfannau manwerthu a masnachol; a
- Gwella mynediad at, ac o fewn, canolfannau manwerthu a masnachol drwy bob math o drafnidiaeth, gan roi blaenoriaeth i gerdded, beicio a thrafnidiaeth gyhoeddus.

Mae canolfannau manwerthu a masnachol yn ganolog i weithgarwch cymunedol a ffyniant lleol, ac er mwyn cynllunio ar eu cyfer yn effeithiol mae'n bwysig deall eu swyddogaeth, eu rolau a'u cysylltiadau. Gall defnyddio uwchgynlluniau, briffiau datblygu neu gynlluniau lle ategu strategaethau manwerthu drwy ddarparu manylion ychwanegol a helpu i roi polisïau cynlluniau datblygu ar waith. Wrth ddatblygu strategaethau, cynlluniau a pholisïau i adfywio canolfannau sy'n bodoli eisoes a'u gwneud yn fwy deniadol, dylai awdurdodau cynllunio ymgynghori â'r sector preifat a chymunedau lleol.

## Strategaeth Drafnidiaeth Cymru

Mae Strategaeth Drafnidiaeth Cymru yn darparu'r fframwaith ar gyfer gweithgareddau sy'n ymwneud â thrafnidiaeth ac mae'n nodi blaenoriaethau strategol system drafnidiaeth ddiogel, integredig, gynaliadwy, effeithlon ac economaidd sy'n gwasanaethu Cymru. Mae'n rhoi cyd-destun i nod Llywodraeth Cymru o leihau'r angen i deithio, yn enwedig mewn ceir preifat,



ac mae'n cefnogi newid dulliau teithio at gerdded, beicio a thrafnidiaeth gyhoeddus. Adlewyrchir hyn ym Mholisi Cynllunio Cymru a Cymru'r Dyfodol, sy'n rhoi creu lleoedd wrth wraidd y system gynllunio. Cefnogir y newid dulliau hwn gan yr hierarchaeth drafnidiaeth gynaliadwy, sy'n blaenoriaethu cerdded, beicio a thrafnidiaeth gyhoeddus.

Cafodd Strategaeth Drafnidiaeth bresennol Cymru, Cymru'n Un: Cysylltu'r Genedl, ei gyhoeddi yn 2008. Ers hynny cyflwynwyd Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013, sy'n gynyddol ddylanwadol yn y ffordd rydym yn integreiddio teithio llesol â datblygiad newydd. Mae hyn yn hanfodol er mwyn galluogi pobl i gerdded a beicio fel rhan o'u gweithgareddau bob dydd. Mae cynlluniau Metro hefyd yn cael eu datblygu yn y De-ddwyrain, y De-orllewin a'r Gogledd, sy'n cael eu hysgogi gan fuddsoddiad sylweddol gan Lywodraeth Cymru a'i phartneriaid gweithredu. Bydd y prosiectau metro yn cynnig cyfleoedd sylweddol i gymunedau a datblygiadau newydd gael eu cefnogi gan drafnidiaeth gyhoeddus o ansawdd da. Mae technolegau trafnidiaeth hefyd wedi camu ymlaen yn sylweddol dros y blynyddoedd diwethaf, gyda gerbydau allyriadau isel iawn yn gallu cael effaith drawsffurfiannol ar ddatgarboneiddio trafnidiaeth. Bydd Strategaeth Drafnidiaeth Cymru, Llwybr Newydd, yn cydnabod y newidiadau hyn ac yn pennu ein gweledigaeth hirdymor ar gyfer trafnidiaeth. Mae Llwybr Newydd, ynghyd â'i bolisïau a phrosiectau trafnidiaeth cysylltiedig, wedi cyfrannu'n uniongyrchol at strategaeth ofodol, canlyniadau a pholisïau Dyfodol Cymru.

## Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013

Mae Cerdded a Beicio wedi ennill cefnogaeth ers i Lywodraeth Cymru basio Deddf Teithio Llesol (Cymru), a dderbyniodd gydsyniad brenhinol ym mis Tachwedd 2013. Mae'r Ddeddf yn gosod nifer o ddyletswyddau ar yr awdurdodau lleol i wella'n barhaus y cyfleusterau a llwybrau, yn rhai newydd a rhai sy'n bod eisoes, i gerddwyr a beicwyr a pharatoi mapiau yn nodi'r llwybrau presennol, a rhai posibl yn y dyfodol, y gallant eu defnyddio. Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol hefyd i gynlluniau ffyrdd newydd ystyried anghenion cerddwyr a beicwyr yn y camau cynllunio a dylunio. Dylid dylunio neu wella'r rhwydwaith teithio llesol i gyrraedd set o safonau'r arferion gorau. Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi canllawiau:

- Canllawiau Dylunio Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013
- Canllawiau Statudol ar gyfer Gweithredu Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013;
- Y Cynllun Gweithredu Teithio Llesol.

## Cymru'r Dyfodol – Cynllun Cenedlaethol 2040

Cymru'r Dyfodol – Cynllun Cenedlaethol 2040 yw'r fframwaith datblygu cenedlaethol, sy'n gosod cyfeiriad datblygu yng Nghymru hyd at 2040. Mae'n gynllun datblygu gyda strategaeth ar gyfer ymdrin â blaenoriaethau cenedlaethol allweddol trwy'r system gynllunio, gan gynnwys cynnal a datblygu economi sy'n ffynnu, cyflawni datgarboneiddio a gwrthsefyll newid hinsawdd, datblygu ecosystemau cryf a gwella iechyd a llesiant ein cymunedau.



## Datganiadau Ardal – Cyfoeth Naturiol Cymru

Mae Datganiadau Ardal a gynhyrchir gan Cyfoeth Naturiol Cymru yn unol â'u dyletswyddau o dan Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016, yn nodi strategaeth ar gyfer rheoli Adnoddau Naturiol yn well er budd cenedlaethau'r dyfodol. Fel yr awgryma'r enw, mae'r datganiadau yn seiliedig ar ardaloedd gofodol.

Mae saith yn cwmpasu Cymru, gyda phedwar ohonynt yn ymestyn i ardal y Parc Cenedlaethol.

- De-ddwyrain Cymru
- Canol De Cymru
- De-orllewin Cymru
- Canolbarth Cymru

## Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol (2020) (SoNaRR)

Rhaid i Cyfoeth Naturiol Cymru baratoi a chyhoeddi adroddiad sy'n cynnwys asesiad o gyflwr Adnoddau Naturiol yng Nghymru (SoNaRR). Mae'r adroddiad hwn yn ddogfen allweddol wrth baratoi Cynlluniau Rheoli Parciau Cenedlaethol. Mae'r adroddiad diweddaraf yn tynnu sylw at yr angen i sectorau cyhoeddus drosoli newid i fynd i'r afael â'r argyfyngau natur a hinsawdd gan ddefnyddio newid trawsnewidiol ar draws ecosystemau, a systemau economaidd a chymdeithasol.

## Deddf yr Amgylchedd 2016 Rhan 1 Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy a Rhan 2 Newid yn yr Hinsawdd

Mae adnoddau naturiol yn hanfodol ar gyfer yr aer rydyn ni'n ei anadlu, y dŵr rydyn ni'n ei yfed a'r bwyd rydyn ni'n ei fwyta. Maent yn gwella ansawdd y lleoedd lle'r ydym yn byw, yn gweithio ac yn ymweld â nhw ac yn creu'r tirweddau a'r bioamrywiaeth sy'n gwneud yr ardaloedd hyn yn arbennig.

Mae adnoddau naturiol sy'n iach ac yn ffynnu hefyd yn iachach i bobl, eu cymunedau ac i'r economi, ond mae'r galw ar ein hadnoddau naturiol yn cynyddu. Os na fyddwn yn gweithredu ar unwaith i reoli ein hadnoddau naturiol yn gynaliadwy, bydd canlyniadau difrifol a fydd effeithio ar bob un ohonom. Mae angen i ni newid y ffordd yr ydym yn gwneud pethau fel ein bod yn parhau i elwa o'n hadnoddau naturiol ar hyn o bryd ac yn y dyfodol.

Mae Deddf yr Amgylchedd yn ein helpu i ymateb i'r her hon drwy gyflwyno rheolaeth gynaliadwy o adnoddau naturiol fel dull newydd sy'n sicrhau nad yw'r ffordd rydym yn defnyddio ein hadnoddau naturiol ac yn effeithio arnynt yn arwain at eu dirywiad hirdymor. Rydym wedi dysgu o brofiadau ein partneriaid rhyngwladol ac rydym yn defnyddio'r arferion gorau rhyngwladol drwy weithredu dull ecosystemau Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Amrywiaeth Fiolegol er mwyn helpu Cymru i arwain y ffordd ar Ddatblygu Cynaliadwy. Ein nod yw rheoli ein hadnoddau naturiol mewn ffordd gynaliadwy ac ar raddfa sy'n diwallu anghenion y genhedlaeth bresennol heb amharu ar anghenion cenedlaethau'r dyfodol ac sy'n cyfrannu at y saith nod llesiant yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Mae Rhan 1 o'r Ddeddf – A6 Dyletswydd Bioamrywiaeth - yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau cyhoeddus geisio cynnal a gwella bioamrywiaeth a hyrwyddo ecosystemau cydnerth. Er mwyn cydymffurfio â'r ddyletswydd hon, mae'n ofynnol i awdurdodau cyhoeddus ymgorffori ystyriaeth o fioamrywiaeth ac ecosystemau mewn polisïau, cynlluniau, rhaglenni a phrosiectau. Mae Cynllun Gweithredu Adfer Natur Gwent yn cyflwyno canllawiau mwy manwl ar sail Gwent gyfan. Bydd cydymffurfio â'r ddyletswydd A6 hon yn helpu manteisio i'r eithaf ar gyfraniadau i'r nodau Llesiant. Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi'r canllawiau canlynol:

- Cynllun Gweithredu ar gyfer Pryfed Peillio yng Nghymru 2013
- Cynllun Gweithredu ar gyfer Peillwyr: Adolygiad 2013-2018 a Gweithredoedd y Dyfodol (llyw.cymru)
- Cynllun Gweithredu Adfer Natur 2015
- Cyfoeth Naturiol Cymru 2017
- Cymru'r Dyfodol: y Cynllun Cenedlaethol 2040

## Canllaw i Greu Lleoedd 2020 – Comisiwn Dylunio Cymru

Mae canllaw Comisiwn Dylunio Cymru wedi'i anelu at bawb sy'n ymwneud â chreu lleoedd llwyddiannus, gan gynnwys y gymuned leol, dylunwyr trefol, cynllunwyr, penseiri, penseiri tirwedd, datblygwyr, cynllunwyr trafnidiaeth, peirianwyr priffyrdd ac ecolegwyr ymhlith eraill. Mae angen i bob proffesiwn a phob unigolyn sy'n ymwneud â chynllunio, dylunio, datblygu neu reoli lleoedd gydweithio ar bob cam tuag at agenda creu lleoedd gyffredin. Cydnabyddir bod natur lleoedd yn amrywio ar draws Cymru, bod pentrefannau gwledig yn wahanol i ganol trefi, ac y gall coetir fod yn lle, llawn cymaint â sgwâr trefol. Mae'r canllaw hwn yn canolbwyntio ar aneddiadau ar bob graddfa ac ymhob lleoliad sy'n cael eu newid neu eu datblygu o'r newydd.

Yn aml, mae'r theori o ddeall lle yn priodoli tair elfen allweddol i leoedd da, a dylai creu lleoedd geisio sicrhau bod pob un o'r rhain yn cael sylw:

### Gweithgarwch

Y gweithgareddau sy'n digwydd yn y lle a gefnogir gan wahanol fathau o ddefnydd tir, symudiad cerddwyr a beicwyr, chwarae a bywyd cymdeithasol o fewn y parth cyhoeddus a digwyddiadau.

### Ffurf Ffisegol

Y cefndir ffisegol sy'n ffufio'r lle gan gynnwys y treflun, ffurf adeiledig, tirwedd, topograffeg, ecoleg, micro-hinsawdd a'r parth cyhoeddus.

### Ystyr

Nodweddion unigryw lle gan gynnwys y cyd-destun, hunaniaeth lleoedd presennol, ymdeimlad unigryw o le, nodweddion sylweddol, adeiledig a naturiol, cymdeithasau diwylliannol, profiadau synhwyraidd, diogelwch a chynhwysiant a theimlad o berthyn.

Y meysydd sydd angen i greu lleoedd eu hystyried yw:

### Pobl a'r gymuned

Mae'r gymuned leol yn rhan o'r gwaith o ddatblygu cynigion. Ystyrir anghenion, dyheadau, iechyd a lles pob person ar y cychwyn. Mae cynigion yn cael eu llunio i helpu i ddiwallu'r anghenion hyn yn ogystal â chreu, integreiddio, diogelu ac/neu wella ymdeimlad o gymuned a hyrwyddo cydraddoldeb.

### Lleoliad

Mae lleoedd yn tyfu ac yn datblygu mewn ffordd sy'n defnyddio tir yn effeithlon, yn cefnogi ac yn gwella lleoedd sy'n bodoli eisoes, ac sydd â chysylltiadau da. Mae lleoliad tai, cyflogaeth, hamdden a chyfleusterau eraill yn cael eu cynllunio er mwyn helpu i leihau'r angen am deithio.

### Symud

Mae cerdded, beicio a thrafnidiaeth gyhoeddus yn cael eu blaenoriaethu i ddarparu dewis o ddulliau trafnidiaeth, ac osgoi gorfod dibynnu ar gerbydau preifat. Mae llwybrau teithio llesol, diogel sydd wedi'u cynllunio'n dda, yn cysylltu â'r rhwydwaith teithio llesol a thrafnidiaeth gyhoeddus ehangach, ac mae gorsafoedd ac arosfannau trafnidiaeth gyhoeddus yn cael eu hintegreiddio'n gadarnhaol.

### Amrywiaeth o ddibenion

Mae gan leoedd amrywiaeth o ddibenion sy'n darparu cyfleoedd ar gyfer datblygu cymunedol, twf busnesau lleol a mynediad at swyddi, gwasanaethau a chyfleusterau drwy gerdded, beicio neu drafnidiaeth gyhoeddus. Mae dwysedd datblygu a chymysgu defnyddiau a daliadaethau yn helpu i gefnogi cymuned amrywiol a pharth cyhoeddus bywiog.

**Cam Gweithredu** - Gweithio ar draws y llywodraeth i ddatblygu cynllun hirdymor ar gyfer lleoli a/neu adleoli amrywiaeth o wasanaethau cyhoeddus i ganol trefi, gyda chefnogaeth strategaethau rheoli asedau priodol a strwythurau llywodraethu cysylltiedig cyrff gwasanaethau cyhoeddus.

**Cam Gweithredu** - Gweithio ar draws y llywodraeth, deall refeniw a gwariant cyfalaf, a fframweithiau caffael sefydliadau allweddol yn y sector cyhoeddus (ee iechyd, addysg) er mwyn sicrhau eu bod yn cyd-fynd â'r polisi Canol Trefi yn Gyntaf.

**Cam Gweithredu** - Sefydlu consortia o landlordiaid cymdeithasol a datblygwyr preifat i alluogi datblygiadau tai mewn lleoliadau priodol mewn trefi ac o'u cwmpas, sy'n dilyn egwyddorion creu lleoedd.

**Cam Gweithredu** - Rhaid targedu'r cyllid Trawsnewid Trefi yn yr ardaloedd lle mae'n gallu cefnogi cyfleoedd trawsnewidiol ac o dan gynllun creu lleoedd sydd wedi cael ei ddatblygu'n lleol ar draws pob sector.

**Cam Gweithredu** - Ystyried opsiynau i gefnogi'r capasiti ar gyfer cyflawni a darparu cymorth arbenigol, gan gynnwys ystyried cylch gwaith Comisiwn Dylunio Cymru yn y dyfodol.

**Cam Gweithredu** - Gweithio gyda phartneriaid cyhoeddus, cymdeithasol a phreifat i ddadansoddi'r rhwystrau a chanfod cyfleoedd i sicrhau bod seilwaith gwyrdd ac atebion sy'n seiliedig ar natur – gan ddefnyddio egwyddorion economi gylchol – yn cael eu gwreiddio a'u blaenoriaethu yn y broses o wneud penderfyniadau wrth ymgymryd â gwaith mewn mannau cyhoeddus yng nghanol trefi.

**Cam Gweithredu** - Cryfhau gweithrediad y polisi Canol Trefi yn Gyntaf wrth gynllunio a grymuso cynllunwyr lleol i wrthod datblygiadau nad ydynt yn bodloni'r polisi ac i gynnig cynlluniau newydd ar gyfer ailddefnyddio datblygiadau y tu allan i drefi mewn modd addasol.

**Cam Gweithredu** - Bydd ein canllawiau ar gyfer paratoi Cynlluniau Trafnidiaeth Rhanbarthol yn ei gwneud yn ofynnol i Gyd-bwyllgorau Corfforedig ystyried polisïau ehangach, gan gynnwys Canol Trefi yn Gyntaf.

**Cam Gweithredu** - Byddwn yn edrych ar ddull 'pecynnau buddion a chodi tâl' teg a chyfartal o gyflwyno unrhyw gynlluniau rheoli'r galw newydd, gan edrych ar ffyrdd o wella gwasanaethau cyn codi tâl, neu gyflwyno prisiau is pan fydd y cyfnod codi tâl yn dechrau.

## Y Parth Cyhoeddus

Mae strydoedd a mannau cyhoeddus wedi'u diffinio'n dda, yn groesawgar, yn ddiogel ac yn gynhwysol, gyda hunaniaeth unigryw. Maen nhw wedi'u cynllunio i fod yn gadarn ac yn hyblyg gyda thirwedd, seilwaith gwyrdd a draeniad cynaliadwy wedi'u hintegreiddio'n dda. Maen nhw wedi'u cysylltu'n dda â lleoedd presennol, ac maen nhw'n hyrwyddo cyfleoedd ar gyfer rhyngweithio cymdeithasol ac amrywiaeth o weithgareddau i bawb.

## Hunaniaeth

Mae rhinweddau cadarnhaol, nodedig lleoedd presennol yn cael eu gwerthfawrogi a'u parchu. Nodir nodweddion a chyfleoedd unigryw lleoliad, yn cynnwys treftadaeth, diwylliant, iaith, priodoleddau ffisegol adeiledig a naturiol, ac ymatebir iddynt.

## Canol trefi: datganiad sefyllfa, Mai 2023, Llywodraeth Cymru

Ym mis Mai 2023, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ddatganiad sy'n nodi'r heriau sy'n wynebu canol trefi a sut y byddant yn helpu i'w hadfywio.

Mae'r datganiad yn agor trwy ddweud bod canol trefi'n wynebu heriau cymhleth sydd weithiau'n unigryw i leoedd penodol. Fodd bynnag, mae'r rhan fwyaf o'r problemau a wynebir gan drefi yng Nghymru sy'n ei chael yn anodd, yn gallu cael eu priodoli i gyfuniad o ddirywiad yng nghanol y dref a datblygiadau y tu allan i'r dref ar ôl y 1980au. Mae angen i ni gydnabod cymhlethdod y problemau hyn a gweithio gyda'n gilydd ym mhob sector ledled y wlad i adfywio canol ein trefi. Mae'r datganiad hwn yn nodi'r heriau sy'n wynebu trefi, yn ogystal â'r camau y bydd Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i osod y sylfeini ar gyfer newid a galluogi cyflawni'n lleol i ddatblygu ein canol trefi fel lleoliadau ar gyfer ystod o wasanaethau, menter economaidd, gwaith ac i fod yn gymunedau cysylltiedig.

Caiff yr heriau sy'n wynebu canol trefi eu diffinio fel:

- Symud gwasanaethau o ganol trefi i'r cyrion
- Heriau modelau busnes
- Lleoliadau y tu allan i drefi yn cael eu hatgyfnerthu gan ddibyniaeth ar geir preifat
- Argyfyngau hinsawdd a natur
- Gallu i gyflawni'n lleol

Roedd y datganiad sefyllfa'n amlinellu rhai o Gamau Gweithredu Llywodraeth Cymru.

## Polisïau canol trefi yn gyntaf

Mae tynnu busnesau a sefydliadau'r sector

cyhoeddus o ganol trefi wedi cyfrannu at ddirywiad canol trefi. Bydd lleoli neu adleoli'r sefydliadau angor hyn yn strategol i ganol trefi yn cynyddu nifer yr ymwelwyr a gwariant cwsmeriaid er mwyn cefnogi sector adwerthu cadarn, yn ogystal â chreu galw am wasanaethau eraill. Bydd hyn yn gwneud trefi'n fwy deniadol i fewnfuddsoddi yn ogystal ag i fusnesau presennol a newydd.

### Polisïau ar gyfer datblygiadau y tu allan i drefi a'u cysylltedd â chanol trefi

Rhaid i nod sylfaenol unrhyw bolisi ar gyfer datblygu y tu allan i drefi ymwneud ag annog mantais ariannol a chyfleoedd datblygu tuag at ganol y dref, neu sicrhau bod datblygiadau y tu allan i drefi wedi'u cysylltu'n gymdeithasol ac yn ofodol â chanol trefi. Fodd bynnag, ni all hyn olygu dymchwel neu ailddatblygu datblygiadau y tu allan i drefi, oherwydd nid yw hynny'n ddymunol nac yn amgylcheddol gyfrifol.

### Cyflawni mewn ffordd gydgysylltiedig

Yn ogystal â'r heriau a nodir uchod, bydd pob tref hefyd yn wynebu problemau a chyfleoedd penodol eraill, ac mae deall y cyd-destun lleol yn hollbwysig er mwyn penderfynu pa fath o fuddsoddiad sy'n debygol o fod fwyaf effeithiol o ran cefnogi llwyddiant tref. Bydd y pethau sylfaenol yn debyg ar gyfer y rhan fwyaf o drefi – fel gwasanaeth bysiau digonol, cynnig gwasanaethau amrywiol, cysylltedd digidol da – ond bydd y ffordd orau o'u darparu a'u blaenoriaethu yn wahanol. Nid oes datrysiad syml, na model sy'n addas i bawb. Felly, mae'n hanfodol cael dull sy'n caniatáu i bob tref ddod o hyd i atebion lleol sy'n manteisio i'r eithaf ar fenter a gwybodaeth leol.

### RHANBARTHOL
### Strategaeth Ofodol Is-ranbarthol Gorllewin Swydd Gaer a Gogledd-ddwyrain Cymru (2006)

Er ei fod yn perthyn i'w gyfnod, roedd y gwaith cydweithredol, trawsffiniol hwn yn cydnabod diffyg perthnasedd y ffin genedlaethol wrth ystyried sut mae'r economi isranbarthol yn gweithredu, ac yn rhoi rôl flaenllaw  i Sir y Fflint fel canolbwynt economaidd isranbarthol. Mae llawer o'i amcanion yn dal i fod yn berthnasol fel sail ar gyfer y Cynllun Datblygu Lleol (CDLl), yn enwedig gan fod y gweithio hwn mewn partneriaeth yn parhau fel rhan o Gynghrair Mersi - Dyfrdwy.

Cynghrair Mersi a Dyfrdwy (Mersey Dee Alliance - MDA) - Mae'r Cyngor hefyd yn bartner allweddol yn yr MDA a ddeilliodd allan o gydnabod buddiannau economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol a rennir ar draws ardal Gorllewin Swydd Gaer, Cilgwri a gogledd-ddwyrain Cymru. Ffurfiwyd y Gynghrair ym mis Ebrill 2007 ac mae'n cynnwys Gorllewin Swydd Gaer a Chaer, Sir y Fflint, Wrecsam a Chilgwri, ynghyd â Phrifysgol Caer, Prifysgol Glyndŵr Wrecsam, Llywodraeth Cymru a Mersey Travel. Er ei fod eistedd bob ochr i ffin genedlaethol, mae rhanbarth Twf Mersi a Dyfrdwy wedi cael ei gydnabod fel un isranbarth economaidd, gyda phoblogaeth yn agos at 1 miliwn. Rôl yr MDA yw gwella proffil a hunaniaeth rhanbarth ffin Gogledd-ddwyrain Cymru / Gogledd-orllewin Lloegr a chynnal a datblygu cystadleurwydd y rhanbarth. Mae wedi cyhoeddi nifer o strategaethau gan gynnwys Strategaeth Ofodol Isranbarthol (2006-2021). Mae Prosbectws Twf Mersi a Dyfrdwy a gyhoeddwyd yn ddiweddar – Unlocking Our True Potential yn nodi'r buddsoddiad seilwaith trafnidiaeth sydd ei angen i ryddhau'r potensial o dwf economaidd yn ogystal â'r buddsoddiad rheilffordd a nodwyd ym mhrosbectws Growth Track 360. Mae'r prosbectws yn nodi safleoedd Datblygu Strategol gan gynnwys Warren Hall a Phorth y Gogledd, oherwydd eu lleoliadau strategol a'u potensial ar gyfer twf sylweddol.

## Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru (Gweledigaeth Twf a Chais Datblygu)

Cyhoeddodd Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru Weledigaeth Twf ar gyfer economi Gogledd Cymru yn 2016 ac iddo'r nodau canlynol:

- Gwella lles economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol.
- Cefnogi a chadw pobl ifanc yng nghymunedau'r rhanbarth.
- Mynd i'r afael â diweithdra ac anweithgarwch ar draws y rhanbarth.
- Cefnogi a galluogi buddsoddiad gan y sector preifat yn y rhanbarth i hybu cynhyrchiant economaidd a gwella perfformiad economaidd a chyflogaeth.

Bydd y rhain yn cael eu gwireddu trwy gynlluniau penodol sy'n ymwneud â seilwaith, sgiliau a chyflogaeth a chefnogi twf busnesau. O ganlyniad, gwahoddwyd Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru i ddatblygu cais gyda Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn 2019 am gyllid cyfalaf i gefnogi datblygu seilwaith i helpu twf a'r chwe awdurdod lleol, ynghyd â'r sector preifat, y sector addysg a'r trydydd sector, wedi mabwysiadu gweledigaeth ar y cyd ar gyfer tyfu economi gogledd Cymru hyd at 2035. Bydd Gweledigaeth Twf Gogledd Cymru yn creu miloedd o swyddi, hybu'r economi, gwella cysylltiadau trafnidiaeth a chyfathrebu digidol, canolbwyntio ar ynni adnewyddadwy, cefnogi twristiaeth a mwy. Yn fras, y weledigaeth yw tyfu gwerth yr economi 2.8% y flwyddyn i £20 biliwn a chreu dros 120,000 o gyfleoedd swyddi newydd. Mae'r Fargen Twf yn ceisio cyllid cychwynnol allweddol gan Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru i fuddsoddi mewn seilwaith allweddol i alluogi datblygiad a fydd yn rhoi symbyliad gwirioneddol i wireddu'r weledigaeth hirdymor.

Mae'r Cais yn cynnwys cyfres o brosiectau o dan wyth rhaglen ac mae prosiectau allweddol yn Sir y Fflint yn cynnwys cefnogi safleoedd cyflogaeth strategol yn Warren Hall, Brychdyn a'r Porth Gogleddol, Glannau Dyfrdwy a chreu Canolfan Gweithgynhyrchu Uwch.




## Cynllun Adfywio Gogledd Cymru 2018-2035

Mae'r Strategaeth hon yn nodi gweledigaeth ac amcanion a rennir ar gyfer buddsoddiad a gweithgarwch sector cyhoeddus cydlynol yng ngogledd Cymru hyd 2035. Mae'r cyd- ddatganiad o weledigaeth wedi ei nodi isod:

> ***"Erbyn 2035, bydd Gogledd Cymru yn profi llai o anghydraddoldeb, mwy o gyflogaeth, canol trefi wedi'u moderneiddio, gwell cynnig tai, economi ymwelwyr cryfach, economi gwledig gwydn, a gwell iechyd i bobl leol."***

Mae'r Strategaeth yn rhoi arweiniad ar sut ddylid blaenoriaethu'r cyllid sydd ar gael, ac yn ein helpu i alinio'r broses adfywio â mentrau eraill i gefnogi twf economaidd, gan gynnwys Cynllun Twf Gogledd Cymru. Yn ogystal, mae'n ceisio sicrhau bod cyfleoedd economaidd ar gael i gymaint o bobl a chymunedau â phosib ar draws y rhanbarth.

## Amcanion

Mae Strategaeth Adfywio Gogledd Cymru yn ceisio:

**Lleihau anghydraddoldeb** – drwy helpu mwy o bobl i rannu buddion twf yn y dyfodol, gan ganolbwyntio'n benodol ar gefnogi'r rhai gyda'r incwm aelwyd isaf i gael mynediad at gyfleoedd.

**Cynyddu cyflogaeth** - creu cyfleoedd am gyflogaeth drwy brosiectau adfywio.

**Moderneiddio canol trefi** - drwy adeiladu ar eu swyddogaeth fel canolfannau am gyfleoedd economaidd lleol, darpariaeth gwasanaeth a chynhwysiad cymdeithasol. Adnabod eu swyddogaeth yn yr economi sylfaenol a'u helpu i addasu i newid economaidd.

**Datblygu'r economi wledig** - helpu i greu cymunedau gwledig cynaliadwy drwy gael mynediad at gyfleoedd economaidd a mynediad at wasanaethau.

**Gwella'r cynnig tai** - drwy sicrhau fod y datblygiad yn digwydd lle mae galw, gan ddarparu opsiynau tai o ansawdd da i drigolion presennol, pobl ifanc a phobl sy'n symud i'r ardal.

**Cryfhau'r economi twristiaid** - drwy adeiladu ar y cynnig twristiaid a'r cryfderau sy'n bodoli yn y rhanbarth gan gynnwys y marchnadoedd twristiaeth antur a threftadaeth, ynghyd â darparu lleoliad atyniadol i ddigwyddiadau mawr mewn safleoedd sydd o bwys rhanbarthol megis Parc Eirias a Chae Ras Wrecsam. Drwy annog mwy o ymwelwyr i ogledd Cymru a darparu canol trefi modern, byddwn yn cynyddu nifer yr ymwelwyr a ddaw i'n trefi ac sy'n gwario yn yr economi lleol.

**Gwella iechyd pobl leol** - drwy greu mannau sy'n hyrwyddo gweithgarwch corfforol, drwy ddarparu amgylcheddau a mannau gwyrdd o ansawdd a thrwy drechu tlodi yn ein cymunedau mwyaf eithriedig.



### Strategaeth a Chynllun Pobl: Mewn Undod mae Nerth, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr

Gweledigaeth y Bwrdd Iechyd yw creu gogledd Cymru iachach, gyda chyfleoedd i bawb wireddu eu llawn botensial. Golyga hyn y dylai pobl gogledd Cymru, dros amser brofi bywyd hirach ac o ansawdd gwell.

Caiff y weledigaeth hon ei harwain a'i llywio gan gynllun Llywodraeth Cymru "Cymru Iachach", dogfen drosolwg strategol y Bwrdd, "Byw'n Iachach, Aros yn Iach", a'u Strategaeth Gwasanaethau Clinigol esblygol yng ngogledd Cymru. Mae'r Pandemig Covid-19 wedi cael effaith anferthol mewn llawer ffordd:

- Cefnogi unigolion yn y gogledd sydd â Covid-19 a/neu symptomau o Covid-19.
- Yr effaith ar y rheini heb Covid-19 sydd wedi profi oedi mewn triniaeth oherwydd yr angen i ymdrin â'r Pandemig.
- Yr effaith ar ein staff, sydd wedi ymateb yn wych dros 2 flynedd o amodau parhaus y Pandemig.
- Mae wedi cyfyngu ar ein gallu i gyflawni rhai o'n blaenoriaethau a grybwyllwyd o'r blaen, trwy'r angen i ailflaenoriaethu.
- Mae wedi'n hatgoffa ni i gyd, pe bai angen atgoffa, y bydd angen inni i gyd ymateb yn wahanol i'r heriau o ddarparu gofal iechyd mewn ffordd gynaliadwy.

Mae'r effeithiau hyn wedi dylanwadu'n drwm ar ei flaenoriaethau yn y blynyddoedd sydd o'n blaenau.

Mae'r Cynllun Tymor Canolig Integredig, a'i atodiadau cysylltiedig, gyda'r Strategaeth a'r Cynllun Pobl hwn yn un ohonynt, yn nodi sut y byddwn yn gwneud hyn trwy flaenoriaethu meysydd penodol i'w datblygu a gaiff eu cyflawni gyda'r adnoddau sydd ar gael iddo. Mae'r manylion ynghylch y camau y byddwn ni'n eu cymryd yn y flwyddyn sy'n dod gyda'r Cynllun Tymor Canolig Integredig hefyd yn nodi, mewn ffurf ddangosol, sut y byddwn yn adeiladu ar ein camau gweithredu yn 2022/23 yn ystod 2023/24 ac ymlaen i 2024/25.  Yr hyn roedd y Bwrdd Iechyd yn canolbwyntio arno'n bennaf yn 2022/23 oedd:

- Dychwelyd yn llawn at fusnes craidd, gan gynnwys mynd i'r afael â'r ôl-groniad o waith cysylltiedig â'r panedmig,
- Cadarnhau gwaith datblygiadol sydd eisoes wedi cychwyn ond heb ei orffen eto, gan gynnwys gwaith i gyflawni tuag at fframwaith Ymyriad Wedi'i Dargedu Llywodraeth Cymru.

### Gogledd Cymru Actif, Strategaeth 10 Mlynedd – 2023-2033

Gogledd Cymru Actif yw'r bartneriaeth gweithgarwch corfforol a chwaraeon gyntaf i fynd yn fyw yng Nghymru. Rydym yn cynnwys ystod eang o sefydliadau sydd wedi dod ynghyd i gytuno i weithio'n wahanol er mwyn cyflawni diben a rennir o gym unedau mwy actif yng ngogledd Cymru.

Mae'n cefnogi'n gryf ddull systemau cyfan o gyflawni gogledd Cymru mwy actif, gan adeiladu ar enw da'r rhanbarth am gydweithio ar draws sectorau i gyflawni newid systemau cyfan.

Mae yn golygu gweithio gyda chymunedau a rhanddeiliaid i ddeall yr her ac adnabod a phrofi atebion gan weithio ar draws ffiniau sectorau, sefydliadau a lleoedd i gyflawni gwelliannau hir eu pharhad i iechyd a llesiant.

Ei weledigaeth yw "pawb yng ngogledd Cymru yn fwy actif, yn byw bywydau iachach a hapusach".

Ei genhadaeth yw "pawb yng ngogledd Cymru yn cael mynediad i fannau a lleoedd diogel a chyfleoedd amrywiol i fod yn actif bob dydd".

Mae ei fframwaith gweithredu'n canolbwyntio ar bedwar maes blaenoriaeth:

## Pobl Actif

Creu a hyrwyddo cyfleoedd i bawb fod yn egnïol.

Nod: Gweithio gyda phartneriaid i dyfu a hyrwyddo cyfleoedd ar draws amrywiaeth o leoliadau i helpu pobl o bob oed a gallu i fod yn actif yn eu hardal leol, fel unigolion, teuluoedd a chymunedau.

Beth fyddwn ni'n ei wneud:

1. Adolygu'r cyfleoedd lleol presennol i gefnogi pobl i fod yn actif.

2. Profi a thyfu cyfleoedd newydd sy'n helpu pobl i fod yn actif yn eu hardal leol.

## Amgylcheddau Actif

Gwneud y defnydd gorau o leoedd a mannau lleol i fod yn actif.

Nod: Profi ffyrdd newydd o weithio ar lefel leol i ddarparu cyfleoedd i bobl fod yn actif yn eu hardal leol drwy ddefnyddio dull gweithredu seiliedig ar le'.

Beth fyddwn ni'n ei wneud:

1. Treialu 'dulliau seiliedig ar leoedd' mewn ardaloedd y cytunwyd arnynt (yn seiliedig ar ddata a dealltwriaeth) ar draws y rhanbarth er mwyn:

2. Deall yn well y rhwystrau a'r heriau y mae pobl yn eu hwynebu wrth fod yn actif

3. Cyd-greu a chyd-ddatblygu ymyriadau gyda'r bobl sy'n byw yn yr ardal i gynyddu cyfleoedd iddynt fod yn egnïol.

4. Cefnogi a helpu darparwyr gwreiddiau gwirfoddol a gweithgareddau cymunedol presennol i oroesi a ffynnu, a'r rhai sydd â'r gallu i wneud mwy i dyfu cyfleoedd yn lleol.

5. Mapio lleoedd a chyfleusterau lleol y gellir eu defnyddio i helpu i gyflawni ein nodau a llywio cynllunio a datblygu cyfleusterau yn y dyfodol.

## Cymdeithasau Actif

Cynnal, cynnal a thyfu drwy wrando, cefnogi a gweithio gyda chymunedau i wneud 'bod yn actif' yn norm.

Nod: Defnyddio ein llwyfan rhanbarthol a gweithio gyda phartneriaid i gysylltu â'r boblogaeth, gan godi proffil y manteision ehangach o fod yn weithgar i gynulleidfaoedd gwahanol ac amrywiol.

Beth fyddwn ni'n ei wneud:

1. Arwain ymgyrchoedd cyfathrebu a diwrnodau ymwybyddiaeth drwy ddangos bod pobl go iawn yn actif mewn ffordd sy'n gweithio iddyn nhw, fel y gall eraill weld pobl fel nhw yn symud mwy a mwynhau'r manteision.

2. Adolygu'r gweithlu presennol ar draws y rhanbarth a mapio anghenion (gweithlu a chymorth yn y dyfodol) i gyflawni'r strategaeth.

## Systemau Actif

Cydlynu a chydweithio rhwng sawl sector.

Nod: Codi proffil strategaeth ar y cyd Actif Gogledd Cymru a rhoi goleuni ar fanteision ehangach bod yn actif i'w hymgorffori mewn polisi ac ymarfer ar draws y rhanbarth.

Beth fyddwn ni'n ei wneud:

1. Datblygu cynllun cyfathrebu cydlynol gyda phartneriaid i dynnu sylw at fanteision eang bod yn actif gyda'i gilydd.

2. Profi ffyrdd newydd o weithio ar draws y rhanbarth, i uno sectorau i ymrwymo i sbarduno newid ar lefel system.

3. Adolygu data, tystiolaeth a dealltwriaeth ar draws sectorau.

4. Defnyddio'r strategaeth i dargedu cyfleoedd buddsoddi ychwanegol i'r rhanbarth.

## Cynllun Lleol y Cyngor, 2022-23, Cyngor Sir y Fflint

Caiff y blaenoriaethau ar gyfer Sir y Fflint fel sir eu gosod gan y Cyngor a'i bartneriaid sector cyhoeddus lleol. Rydym yn gweithio gyda'n gilydd fel Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus sy'n cyfuno'i adnoddau er budd Sir y Fflint. Gan weithio'n unol ag egwyddorion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, mae'r Cyngor yn cydweithio â phartneriaid sector cyhoeddus lleol fel Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus. Mae Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir y Fflint yn chwarae rhan allweddol yn y gwaith o hyrwyddo diwylliant cadarnhaol o weithio gyda'n gilydd, gan rannu cyd-flaenoriaethau a chyfuno adnoddau er budd Sir y Fflint, gyda'r nod cyffredinol o wella llesiant lleol.

Mae'r Cynllun yn rhestru blaenoriaethau'r Cyngor o dan chwe phrif thema:

- Tlodi
- Tai Fforddiadwy a Hygyrch
- Cymdeithas ac Amgylchedd Gwyrdd
- Economi
- Llesiant Personol a Chymunedol
- Addysg a Sgiliau

Blaenoriaethau Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir y Fflint ar gyfer 2022/23 yw:

- Diogelwch Cymunedol – Mae pobl yn saff
- Byw Iach ac Annibynnol.

Bydd dull Creu Lleoedd yn ymdrin â llawer o themâu'r Cyngor a amlinellir uchod, ond maes pwysig i ganolbwyntio arno i leoedd fel Treffynnol fydd yr economi. O fewn y thema hon, dymuna'r Cyngor adfywio ac ailddyfeisio ei ganol trefi, gyda'i lwyddiannau'n cael eu mesur gan y canlynol:

- Monitro iechyd a hyfywedd canol trefi i gefnogi rheoli effeithiol a phenderfyniadau buddsoddi busnesau – erbyn Mawrth 2023
- Annog a chefnogi buddsoddiad mewn adeiladau yng nghanol trefi yn enwedig i hwyluso defnydd mwy cynaliadwy ohonynt – erbyn Mawrth 2023
- Mae cyswllt hefyd â Thai Fforddiadwy a Hygyrch
- Gwella'r amgylchedd mewn canol trefi – erbyn Mawrth 2023
- Cefnogi twf mentrau cymunedol mewn lleoliadau canol tref – erbyn Mawrth 2023



## Cynllun Llesiant Sir y Fflint a Wrecsam 2022-23

Y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yw lle mae sefydliadau sector cyhoeddus ar draws Sir y Fflint a Wrecsam yn dod at ei gilydd. Rydym yn gweithio gyda'n cymunedau i newid y ffordd rydym yn gwneud pethau, er mwyn sicrhau y byddwn yn gallu wynebu'r heriau sydd o'n blaenau megis yr argyfwng hinsawdd a natur, a sut y byddwn yn sicrhau iechyd meddwl da a llesiant i bawb.

Ar ôl gweithio mewn partneriaeth drwy gydol COVID, mae Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus Sir y Fflint a Wrecsam bellach wedi dod at ei gilydd fel un corff. Rydym wedi ymrwymo i weithio'n egnïol a brwdfrydig a gwrando ar eraill. Mae hyn yn golygu cynnwys ein cymunedau, felly maen nhw bob amser yn rhan greiddiol o gynllunio a darparu ein gwasanaethau. Fel hyn, gall pawb elwa'n deg o'n hadnoddau, ein hasedau a'n gwasanaethau hygyrch. Rydyn ni'n gryfach gyda'n gilydd.

Mae gennym bartneriaeth strategol sy'n canolbwyntio'n gryf ar fabwysiadu dull ar y cyd o ddysgu, gwneud penderfyniadau a gweithredu. Gyda'i gilydd, mae ein sefydliadau'n cyflogi llawer o bobl leol. Mae pob aelod o'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn sefydliad angor, yma ar gyfer y tymor hir ac yn gweithio i'n hardal, gan edrych ar sut rydym yn defnyddio ein hadnoddau yn well i adeiladu lle tecach ac iachach. A sut y gallwn ddefnyddio ein grym gwario i bweru'r economi leol ac adeiladu llesiant.

Prif faes thematig a chanlyniadau y Cynllun Llesiant yw "Ein Cymunedau" sy'n canolbwyntio ar ddefnyddio sgiliau a doniau pawb i fynd i'r afael â'r argyfwng newid hinsawdd a natur ac adeiladu economi leol gref, deg a chynaliadwy. Mae'r Cynllun yn datgan bod yn rhaid iddo gipio'r cyfle i adeiladu economi leol gynaliadwy, gan weithio ar draws ein rhanbarth ac ar draws y ffin i dyfu busnesau lleol, gwella bioamrywiaeth a chanolbwyntio ar datblygu seiliau a seilwaith gwyrdd. Bydd hyn yn helpu lliniaru effeithiau newid hinsawdd, addasu'n cymunedau i effeithiau hinsawdd sy'n newid a chefnogi gwell canlyniadau llesiant.

Mae hefyd yn nodi sgiliau gwyrdd fel cyfran sylweddol o farchnad swyddi'r dyfodol ac felly mae angen inni roi'r cyfle i bawb yn ein cymunedau i fanteisio ar y cyfleoedd anferthol ac amrywiol yn y sector hwn. Caiff teithio llesol hefyd ei weld fel rhywbeth sy'n allweddol er mwyn manteisio ar y nifer a'r amrywiaeth sylweddol o gyfleoedd cyflogaeth sefydlog, sy'n talu'n dda, a fydd ar gael, gyda'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol yn hyrwyddo'r syniad o'r gymdogaeth 20 munud lle mae swyddi, cyfleusterau a siopau yn haws eu cyrraedd heb eistedd mewn tagfeydd.



## Strategaeth Newid Hinsawdd, 2022-2030, Cyngor Sir y Fflint


Mae'r hinsawdd yn newid ac er ei fod bob amser wedi newid trwy brosesau amgylcheddol naturiol, caiff ei dderbyn yn helaeth bellach fod gweithgarwch dynol yn effeithio ar yr hinsawdd mewn ar raddfa sy'n cael effeithiau niweidiol ar bopeth byw. Roedd Cytundeb Paris 2015 ar Newid yn yr Hinsawdd yn cydnabod yr angen i gyflymu gweithredoedd a buddsoddi mewn lleihau effeithiau ar yr amgylchedd. Os na fyddwn ni'n gwneud dim, bydd y goblybiadau posibl yn niweidiol i'n cymuned trwy risg i iechyd a llesiant, llifogydd, gwres eithafol, tarfu ar seilweithiau mewn ynni, trafnidiaeth a diwydiant.

| Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir y Fflint a Wrecsam | | | |
|---|---|---|---|
| **Datblygu cymunedau sy'n ffynnu drwy leihau anghydraddoldebau ar draws yr amgylchedd, addysg, cyflogaeth, incwm a thai.** | | **Gwella lles cymunedol drwy alluogi pobl o bob oed i fyw bywydau diogel, iach ac annibynnol.** | AMCANION |
| Sicrhau bod plant a phobl ifanc yn ffynnu drwy wneud y mwyaf o sgiliau newydd, hyfforddiant a chyfleoedd dysgu. | Plant a Phobl Ifanc | Sicrhau bod ymagwedd gydgysylltiedig ar draws y sector cyhoeddus at atal ac ymyrraeth gynnar ar gyfer pob plentyn a theuluoedd. | CANLYNIADAU |
| Paratoi sgiliau a thalentau pawb i fynd i'r afael â newid hinsawdd a'r argyfwng natur, gan ddatblygu economi leol gadarn, deg a chynaliadwy. | Ein Cymunedau | Arloesi gyda chymunedau i ddatblygu iechyd meddwl a lles da. | |
| Cryfhau'r cyswllt rhwng sefydliadau'r BGC a'u staff sy'n gweithio ac yn byw yn ein cymunedau. | Ble rydym yn gweithio | Sicrhau bod y BGC wir yn deall anghenion ac adnoddau ein cymunedau. | |

Mae'r Cyngor yn cefnogi'r datganiadau a wnaed gan Lywodraeth Cymru i'r Sector Cyhoeddus ddod yn garbon niwtral erbyn 2032, ac ym mis Rhagfyr 2019, cymeradwyodd Aelodau'r Cabinet gynnig i ddatblygu strategaeth glir ar gyfer Newid Hinsawdd a fydd yn gosod nodau a chamau gweithredu allweddol ar gyfer greu sefydliad carbon niwtral. Roedd y Cyngor yn gyfrifol am allyriadau nwyon tŷ gwydr o 46,434 tCO2e yn 2018/2019 o'r gwasanaethau mae'n eu darparu, yr adeiladau mae'n eu gweithredu a'r nwyddau/gwasanaethau mae'n eu prynu. Mae nifer o gamau y gall y Cyngor eu cymryd i leihau ei allyriadau nwyon tŷ gwydr fel sefydliad ac mae'r ddogfen hon yn dangos nodau a gweithredoedd camau cyntaf y Cyngor at ddod yn sefydliad carbon niwtral.

Mae amcanion y thema yn canolbwyntio ar adeiladau, symud a thrafnidiaeth, caffael, defnydd tir ac ymddygiad. Mae'r camau o nodwyd o fewn pob un o'r themâu hyn wedi ystyried barn Aelodau, y cyhoedd, a gweithwyr y Cyngor er mwyn creu llwybr sy'n uchelgeisiol a chyraeddadwy gyda'r buddsoddiad a'r adnoddau iawn, cydweithio ac arweiniad.

Mae'r Cyngor wedi pennu nodau o fewn pob un o themâu'r amcanion allweddol. Mae gan bob un o'r amcanion hyn nifer o gamau amrywiol. Mae'r nodau lleihau yn seiliedig ar linellau sylfaen 2018/19 ar gyfer pob thema.



## Cefnogi Natur yn Sir y Fflint – Ein cynllun i gynnal a gwella bioamrywiaeth o dan Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016

Cefnogi Natur yn Sir y Fflint yw ail gynllun Sir y Fflint ar gyfer cynnal a gwella bioamrywiaeth yn Sir y Fflint. Gwnaeth y Cyngor gynnydd da mewn 67% o'r ardaloedd targed o dan ei gynllun 2016-2019 ac mae'n symud ymlaen â'n gwaith ers 2020 mewn sefyllfa gryfach ar ôl parhau i sicrhau nifer o grantiau ar gyfer gweithredu dros natur a chynyddu swydd ein Swyddog Bioamrywiaeth i fod yn llawn-amser. Mae Sir y Fflint wedi chwarae rhan allweddol mewn sicrhau parhau'r Bartneriaeth Natur Ranbarthol (Bionet) a fydd yn arf pwysig wrth ddatblygu Cynllun Gweithredu Adfer Natur Lleol, o ran gweithredu targedau o'r Cynllun Gweithredu Adfer Natur Cenedlaethol, blaenoriaethau o'r Datganiadau Ardal ac amcanion llesiant.

Mae ein cynllun yn uchelgeisiol. Bydd yn cynnwys gweithio ar draws adrannau'r Cyngor, gyrru newid a fydd yn arwain at nifer o fanteision a hyrwyddo ffyrdd newydd o feddwl a gweithio. Fe fydd yna gysylltiadau penodol gyda'r rhaglen lleihau carbon a maes blaenoriaeth datblygol newid hinsawdd.

Mae'r cynllun yn trafod glaswelltir a thir comin, coetir a choed a hefyd bwysigrwydd seilwaith wledig a gwyrdd  sy'n ffurfio rhan o gynlluniau creu lleoedd.

## Seilwaith Gwyrdd Gwledig a Threfol

Mae yna nifer o safleoedd nad ydynt wedi eu dynodi a rhannau gwasgaredig o gynefinoedd sydd â gwerth o ran gwarchod natur a sy'n hanfodol ar gyfer natur. Mae hyn yn ffurfio ein hisadeiledd gwyrdd. Mae'n cynnwys nentydd a phocedi bach o goetiroedd gwlyb, hen wrychoedd, sy'n gweithredu fel coridorau ar gyfer bwyd gwyllt mewn caeau sydd fel arall yn wael o ran rhywogaethau, coetiroedd hynafol sy'n gartref i gannoedd o rywogaethau gan gynnwys clychau'r gog. Gyda'i gilydd mae'r cynefinoedd hyn yn darparu ar gyfer ein rhywogaethau mwy cyffredin a phrin fel Madfallod y Twyni, Llyffantod Cefnfelyn, Ystlumod, Pathewod, Dyfrgwn, Madfallod Dŵr Cribog a miloedd o adar hirgoes ar aber Afon Dyfrdwy. Mae'r rhan fwyaf o ardaloedd trefol o fewn y Sir yn ymgorffori 'mannau gwyrdd' anffurfiol sy'n bwysig i fywyd gwyllt a hamdden. Mae llawer o'r rhain yn waddol hen safleoedd diwydiannol neu waith mwynau sydd wedi datblygu fflora naturiol a sy'n gartref i rywogaethau niferus o drychfilod. Mae Dyffryn Maes Glas, Treffynnon a Pharc Gwepra, Cei Connah yn 'fannau gwyllt' neilltuol o werthfawr.

## Strategaeth a Chynllun Gweithredu Tai Sir y Fflint, 2019-2024

Mae'r Cyngor wedi nodi tair blaenoriaeth strategol ar gyfer y pum mlynedd nesaf, a fydd yn eu barn hwy yn darparu'r fframwaith iawn ar gyfer darparu cartrefi, cefnogi pobl a hyrwyddo cynaliadwyedd lle. Y rhain yw:

- Blaenoriaeth 1: Cynyddu'r cyflenwad i ddarparu'r math iawn o gartrefi yn y lleoliad iawn.
- Blaenoriaeth 2: Rhoi cymorth i sicrhau bod pobl yn byw ac yn aros yn y math iawn o gartref; a
- Blaenoriaeth 3: Gwella ansawdd a chynaliadwyedd ein cartrefi.

Mae blaenoriaethau'r Strategaeth Tai yn cydgyfeirio â'r rheini a bennir yn ein Strategaeth Digartrefedd Rhanbarthol a'r Cynllun Datblygu Lleol, yn ogystal â'r Cynlluniau Comisiynu Rhanbarthol a Lleol ar gyfer Cefnogi Pobl. Mae'r dogfennau strategol hyn wedi cael eu datblygu ar y cyd â'i gilydd er mwyn sicrhau bod eu gwaith yn ategu'i gilydd a'r egwyddorion gweithredu yn cael eu rhannu yn cynnnwys;

- Rhwystro digartrefedd;
- Bod, ac y bydd, llety addas ar gael i bobl sydd, neu a allai ddod, yn ddigartref;
- Bod cymorth boddhaol ar gael i bobl sydd, neu allai ddod, yn ddigartref.

Mae ffeithiau allweddol ar ansawdd tai yn cynnwys:

- Mae 10.1% o anheddau a feddiennir yn y sector preifat ledled Sir y Fflint yn cynnwys aelwyd sydd mewn tlodi tanwydd
- Mae 1.6% o anheddau preifat heb wres canolog
- Mae chwarter yr anheddau a rentir yn breifat yn methu'r safonau cartrefi gweddus
- Gelli cywiro 30% o beryglon oerfel gormodol gydag ymyrraeth a fydd yn cael ei wrthbwyso gan arbedion i'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol o fewn un flwyddyn
- Y deiliadau gyda'r ganran uchaf o anfodlonrwydd gyda chyflwr eu heiddo yw stoc tai y Cyngor a stoc a rentir yn breifat (2014)
- Mae'r Cyngor a Llywodraeth Cymru yn buddsoddi £50m yn Safonau Ansawdd Tai Cymru i wella cyflwr gwael y stoc tai Cymru (a oedd i'w gwblhau yn 2020)

*Gweledigaeth y Strategaeth Tai yw:*

*"Gweithio mewn partneriaeth gyda rhanddeiliaid allweddol i arwain a darparu'r math iawn o dai o ansawdd uchel a'r cymorth mwyaf addas i ddiwallu anghenion tai ein poblogaeth."*

## Cynllun Rheoli Asedau Corfforaethol

Mae Cynllun Rheoli Asedau'r Cyngor yn elfen hanfodol o ddarparu ein blaenoriaethau corfforaethol a strategaethau'n effeithiol. Bydd darparu'r ased cywir yn y lle cywir ar yr amser cywir yn sicrhau darpariaeth effeithiol ac effeithlon o ystod gynhwysfawr o wasanaethau cyhoeddus o ansawdd uchel.

Mae'r ddogfen hefyd yn sicrhau'r cysylltiadau priodol ag uchelgais Llywodraeth Cymru i gael Sector Cyhoeddus Di-garbon erbyn 2030, Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol Llywodraeth Cymru a Strategaeth Newid yn yr Hinsawdd y Cyngor.

Nodau Allweddol

- Darparu cyd-destun clir i werthuso cynigion ar gyfer gwariant cyfalaf i sicrhau bod yr holl wariant cyfalaf yn cael ei dargedu i ddarparu blaenoriaethau'r Cyngor fel y nodir yng Nghynllun y Cyngor.
- Nodi sut mae'r Cyngor yn dynodi ac yn blaenoriaethu gofynion a chynigion cyfalaf sy'n codi o strategaethau amrywiol yn cynnwys Cynllun y Cyngor, Cynlluniau Busnes Portfolio a strategaethau corfforaethol eraill a sut y byddant yn cael eu rheoli yn yr adnoddau cyfalaf cyfyngedig sydd ar gael.
- Cyfrannu at darged Llywodraeth Cymru o gael Sector Cyhoeddus Di-garbon erbyn 2030 a rheoli asedau i addasu i'r hinsawdd sy'n newid yn ogystal â bodloni ein dyletswyddau i wella bioamrywiaeth a gwytnwch ecosystemau.
- Herio ein hystâd bresennol yn feirniadol, parhau â'r rhaglen o resymoli asedau, gan sicrhau bod asedau sy'n cael eu cadw yn effeithiol, effeithlon a chynaliadwy i ddarparu gwasanaethau.
- Gwneud y mwyaf o dderbyniadau cyfalaf, wrth gydbwyso'r angen i gadw tir ar gyfer ein dibenion dal a storio carbon ein hunain.
- Canfod ac ystyried y dewisiadau sydd ar gael i ariannu gwariant cyfalaf sy'n lleihau'r goblygiadau refeniw parhaus sy'n deillio o wariant cyfalaf hanesyddol ac unrhyw fuddsoddiadau newydd.
- Defnyddio partneriaethau cyhoeddus a phreifat yn fwy effeithiol i gefnogi ein strategaeth gyffredinol.
- Adeiladu ar drefniadau ar gyfer rheoli prosiectau cyfalaf gan gynnwys asesu canlyniadau a chyfawni gwerth am arian.

### Yr Hirdymor – Ble Mae ar Cyngor Sir y Fflint Eisiau Bod

Nod ein Strategaeth Asedau corfforaethol hirdymor yw symud tuag at y portfolio asedau gorau posibl a gwneud yr incwm gorau posibl. Er mwyn cyfawni'r portfolio asedau gorau posibl, rydym wedi ystyried pa asedau y mae arnom eu hangen i gyfawni amcanion corfforaethol y Cyngor yn effeithlon. Mae'r Strategaeth Asedau yn ymwneud yn uniongyrchol â dibenion y Cyngor: y gwasanaethau rydym yn gyfrifol am eu darparu a'r swyddogaethau statudol rydym yn gyfrifol am eu cyfawni. Mae'n cysylltu'r asedau rydym eu hangen er mwyn darparu gwasanaethau a chyfawni ein swyddogaethau.

Nid dim ond yr asedau hynny y byddai'r Cyngor yn hoffi eu cael pe bai adnoddau'n ddiderfyn yw'r portfolio gorau posibl, ond yr asedau hynny sy'n ein galluogi i ddarparu amcanion corfforaethol, gan ystyried y gwerth cyffredinol am arian ac anghenion ein cymunedau lleol.

Mae'r ddogfen strategol lefel uchel hon yn cyfeirio at y cynllun rheoli asedau mwy manwl a ddatblygwyd mewn portffolios, er enghraifft; y Strategaeth Newid yn yr Hinsawdd, Moderneiddio Ysgolion, Cynllun Rheoli Asedau Prifyrdd, Cynllun Busnes Tai, Eiddo Corfforaethol, Ystadau Diwydiannol, Ystâd Amaethyddol a'r Strategaeth Ddigidol.

Ar lefel uchel ar gyfer y categorïau gwahanol o asedau, mae'r strategaeth yn cynnwys ein cynlluniau ar gyfer:

- Gweithredu ar garbon isel ac amsugno mwy o garbon ar draws ein hasedau
- Prynu ac adeiladu asedau newydd i safonau carbon isel neu ddi-garbon ac fel ffordd o amsugno mwy o garbon a lleihau ein costau ynni
- Buddsoddi mewn asedau presennol a'u cyfnewid
- Trosglwyddo asedau i sefydliadau eraill, h.y. Trosglwyddo Asedau Cymunedol
- Gwaredu asedau nad oes arnom eu hangen bellach
- Nodi'r addasiadau hirdymor sydd eu hangen i bortfolio asedau'r Cyngor er mwyn darparu gwasanaethau effeithlon yn y dyfodol
- Cysylltu â gwahanol strategaethau eraill y Cyngor yn cynnwys Cynllun y Cyngor, Cynlluniau Busnes Portffolios a strategaethau corforaethol eraill i nodi'r newidiadau sydd eu hangen i bortffolio asedau'r Cyngor
- Ar y cyd â'r Strategaeth Gyfalaf, rheoli lefel y buddsoddiad sydd ei angen o fewn yr adnoddau cyfalaf cyfyngedig sydd ar gael
- Penderfynu pa asedau sydd eu hangen i ddarparu gwasanaethau'n efeithiol
- Ceisio gwneud y mwyaf o gyfeoedd i gynhyrchu lefelau incwm cynaliadwy, drwy rent er enghraifft, wrth leihau rhwymedigaethau'r Cyngor
- Herio ein hystâd bresennol yn feirniadol, parhau â'r rhaglen o resymoli asedau, gan sicrhau bod asedau sy'n cael eu cadw yn efeithiol, efeithlon a chynaliadwy i ddarparu gwasanaethau.

### Prosiectau

Mae prosiect sy'n canolbwyntio ar ganol trefi neu ar adfywio yn cynnwys:

Alun a Glannau Dyfrdwy – Mae cais am £10.52m wedi'i gyfwyno i Lywodraeth y DU sy'n cynnwys y cynigion a ganlyn:

- Ailddatblygu  Dociau Cei Connah;
- Adeiladu canolfan newydd ar gyfer Cadetiaid y Môr yn Nociau Cei Connah.

Hefyd, mae Trafnidiaeth Cymru wedi cyfwyno cais trafnidiaeth strategol ar ran y Cyngor a'r rhanbarth ehangach i wella'r rheilfordd rhwng Wrecsam a Bidston. Mae'r cais yn cynnwys gwelliannau i'r seidin nwyddau i hwyluso gwasanaeth mwy aml ar y llinell i drenau cario teithwyr a gorsaf newydd i Barc Diwydiannol Glannau Dyfrdwy.

Mae Canolfan Hamdden Glannau Dyfrdwy yn 50 oed ac yn nesáu at ddiwedd ei hoes economaidd-ddefnyddiol. Dyma'r cyfeuster chwaraeon mwyaf yn y Sir, yn 15,000m2 ac mae iddi bwysigrwydd strategol yn rhanbarthol ac yn lleol o ran chwaraeon ac iechyd a lles. Mae'n adeilad sy'n heneiddio ar safle rhy fawr a systemau ynni anefeithlon. Nid yw'r adeilad yn gynaliadwy y tu hwnt i'r tymor canolig. Mae'r Cyngor wedi cynnal astudiaeth ddichonoldeb ac achos busnes o opsiynau ar gyfer y ganolfan hamdden yn y dyfodol, a bydd yn adolygu'r effaith y gallai hyn ei gael ar y Rhaglen Gyfalaf ac unrhyw arbedion refeniw posibl yn y dyfodol.

## Cynllun Datblygu Lleol Sir y Fflint 2015-2030, Cynllun Mabwysiedig, 24 Ionawr 2023

Mae'r Cynllun Datblygu Lleol yn dilyn ymlaen o'r Cynllun Datblygu Lleol a fabwysiadwyd (2000-2015) ac mae'n ymwneud â'r cyfnod 2015 i 2030. Mae'r Cyngor wedi paratoi ei Gynllun Datblygu Lleol mabwysiedig yn unol â Chanllawiau a Pholisi Cynllunio cenedlaethol. Mae'r cynllun yn cynnig fframwaith cynllunio clir ar gyfer defnydd tir i ymdrin â phroblemau a chyfleoeddd sy'n wynebu Sir y Fflint, gan anelu i roi sicrwydd i'w chymunedau a sail gadarn a chyson ar gyfer gwneud penderfyniadau cynllunio.

Nod y cynllun yw galluogi cyflawni datblygu cynaliadwy mewn modd sy'n cydbwyso'r holl ofynion Llesiant mewn ffordd synhwyrol a chymesur, er mwyn galluogi'r datblygiad iawn i ddigwydd yn y lleoedd iawn.

Mae polisïau (strategol a manwl) a chynigion y cynllun wedi eu trefnu mewn modd thematig sy'n cynnwys y canlynol:

- Creu Lleoedd a Chymunedau Cynaliadwy
- Cefnogi Economi Lewyrchus
- Diwallu Anghenion Tai
- Gwerthfawrogi'r Amgylchedd.

Y prif heriau cynllunio a nodir ynddo yw:

- Anghenion poblogaeth sy'n tyfu ond yn heneiddio ac sydd ag anghenion tai penodol, ac angen cyffredinol am dai mwy fforddiadwy
- Yr angen i sicrhau cyflenwad o lafur medrus amrywiol i fodloni uchelgeisiau twf swyddi ac economaidd y Sir
- Economi cryf a ffyniannus, sy'n sbardun ac yn ganolfan ar gyfer yr is-ranbarth economaidd ehangach
- Cefnogi seilwaith, gan gynnwys tai, i ddiwallu'r uchelgais twf hwn
- Cymysgedd a math o dai i fodloni ystod o anghenion a dyheadau cymunedau
- Yr angen i leoli datblygiad yn y lleoliadau mwyaf cynaliadwy, ac iddo fod yn ddichonadwy a danfonadwy
- Yr angen i ddatblygu rhywfaint mewn cymunedau gwledig i helpu cadw bywiogrwydd y gymuned
- Datblygiad sy'n swyddogaethol, wedi'i ddylunio'n dda, yn lleihau ei ôl-troed carbon, a lliniaru ac addasu i newid yn yr hinsawdd

- Cymunedau cynaliadwy a chydlynol, gan gydnabod rôl a swyddogaeth ein hardal drefol, trefi marchnad, pentrefi, a phentrefannau gwledig yn yr hierarchaeth anheddiad cynaliadwy, a'r berthynas rhyngddynt.
- Gwell seilwaith trafnidiaeth a chyfleusterau sy'n cynnig gwell ddewis moddol a hygyrchedd at gymunedau
- Amddiffyn a chyfoethogi ein hamgylchedd naturiol, adeiledig, a hanesyddol, ei gymeriad, ansawdd ac amrywiaeth, a nodweddion arbennig lleol
- Cyfleoedd i bobl ein cymunedau arwain bywydau actif, iach, a diogel.

> *"Mae'r Cynllun Datblygu Lleol yn ymwneud â phobl a lleoedd. Mae'n ceisio creu cydbwysedd cynaliadwy a pharhaol rhwng anghenion economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol Sir y Fflint a'i thrigolion, trwy wireddu ei safle unigryw fel porth rhanbarthol ac ardal ar gyfer buddsoddi economaidd, gan warchod ei threftadaeth hanesyddol ddiwylliannol gref a'i hamgylchedd naturiol."*

Caiff Amcanion y Cynllun Datblygu Lleol eu diffinio fel a ganlyn:

### Gwella Bywyd Cymunedol

1. Sicrhau bod gan gymunedau fynediad at gymysgedd o wasanaethau a chyfleusterau, fel addysg ac iechyd, i alluogi bywyd y gymuned i ffynnu, a diwallu anghenion grwpiau penodol fel yr henoed.
2. Annog datblygiad canol trefi ac ardaloedd fel canolbwynt adfywio.
3. Hyrwyddo system drafnidiaeth gynaliadwy a saff sy'n lleihaud dibyniaeth ar geir.
4. Hwyluso darpariaeth seilwaith trafnidiaeth, cyfleusterau a chymdeithasol / cymunedol angenrheidiol.
5. Hwyluso rheoli gwastraff mewn modd cynaliadwy.
6. Diogelu a hyrwyddo'r Gymraeg.
7. Creu lleoedd sy'n saff, hygyrch ac sy'n annog a chefnogi iechyd da, llesiant a chydraddoldeb.

### Cyflawni Twf a Ffyniant

8. Hwyluso twf ac amrywiaeth yn yr economi leol a chynnydd mewn cyflogaeth medrus a gwerth uchel mewn sectorau allweddol.
9. Cefnogi datblygu sy'n gosod Sir y Fflint fel lle cystadleuol yn economaidd ac yn sbardun economaidd i'r is-ranbarth.
10. Ailbwrpasu rôl a swyddogaeth canol trefi Sir y Fflint yn gyrchfannau bywiog ar gyfer siopa, hamdden, diwylliant, dysgu, busnes a thrafnidiaeth.
11. Sicrhau bod gan Sir y Fflint y nifer, maint a math cywir o dai newydd i gefnogi datblygiad economaidd a diwallu ystod lawn o anghenion tai.
12. Sicrhau bod datblygu tai yn digwydd mewn lleoliadau cynaliadwy lle bo safleoedd yn ddichonadwy ac ymarferol ac yn cael eu cefnogi gan y seilwaith cymdeithasol, amgylcheddol a ffisegol angenrheidiol.
13. Hyrwyddo a chyfoethogi economi wledig a chynaliadwy.
14. Cefnogi darpariaeth twristiaeth gynaliadwy.

## Gwarchod yr Amgylchedd

15. Lleihau achosion ac effeithiau newid yn yr hinsawdd a llygredd.

16. Cadw a chyfoethogi asedau amgylcheddol ansawdd uchel Sir y Fflint gan gynnwys tirwedd, treftadaeth ddiwylliannol ac amgylcheddau naturiol ac adeiledig.

17. Cynnal a chyfoethogi rhwydweithiau seilwaith gwyrdd.


18. Hyrwyddo dylunion da sy'n unigryw yn lleol, yn arloesol ac yn sensitif i leoliad.

19. Cefnogi diogelu adnoddau naturiol fel dwr a'u defnyddio'n gynaliadwy a hyrwyddo datblygiad tir llwyd.

Mae'r Cynllun Datblygu Lleol yn nodi cyfres o bolisïau cynaliadwy y mae angen i'r Cynllun Creu Lleoedd ymateb iddynt. Y rhain yw:

- Creu Lleoedd a Chymunedau Cynaliadwy
- Cefnogi Economi Lewyrchus
- Diwallu Anghenion Tai
- Gwerthfawrogi'r Amgylchedd.

Mae creu lleoedd cynaliadwy yn egwyddor bwysig sy'n cadarnhau strategaeth y Cynllun Datblygu Lleol.




Caiff lleoedd cynaliadwy eu creu o gydbwysedd o nodweddion cyfeillgar i'r amgylchedd, bywiog yn economaidd, a chynhwysol yn gymdeithasol, ac iddynt y nod o fod o fudd i genedlaethau'r dyfodol yn ogystal â'r trigolion presennol.

Nod lleoedd o'r fath yw eu bod yn cyflawni'r canlynol:

- Diwallu anghenion holl aelodau eu cymuned;
- Cynnig mynediad at gyfleoedd;
- Sicrhau bod gwasanaethau, seilwaith a chymorth ar gael;
- Darparu amrywiaeth o dai fforddiadwy o ansawdd uchel,
- Eu bod yn gydnerth ac yn gallu addasu i newid;
- Cynnwys datblygiadau a llecynnau o ansawdd uchel;
- Unigryw gyda theimlad o le;
- Deniadol, cymdeithasol, hygyrch, gweithgar, diogel, croesawgar, iach a chyfeillgar;
- Wedi ystyried materion byd-eang a lleol.

## PE7: Hierarchaeth Manwerthu

Bydd datblygiadau manwerthu, hamdden a masnachol yn cael eu cyfeirio tuag at yr hierarchaeth ganlynol fel y nodir ar y map cynigion:

| **Haen** | **Canolfannau** | |
|---|---|---|
| **Canol Trefi** | **Bwcle, y Fflint, Treffynnon, Yr Wyddgrug, Shotton** | |
| **Canolfannau Ardal** | **Cei Connah, Queensferry, Saltney** | |
| **Canolfannau Lleol** | **Bagillt – Stryd Fawr**<br>**Brychdyn – Broughton Hall Rd**<br>**Bwcle – Lane End**<br>**Caergwrle**<br>**Caerwys**<br>**Cei Connah – Thornfield Ave**<br>**Cei Connah – Englefield Ave Cei**<br>**Connah – Ffordd Llanarth**<br>**Ewlo – The Highway**<br>**Ewlo – Holywell Road**<br>**Y Fflint – Ffordd Llaneurgain** | **Garden City – Welsh Road**<br>**Maes Glas – Parade Penarlâg**<br>**Treffynnon - Holway Yr Hôb**<br>**Mostyn – Maes Pennant**<br>**Mynydd Isa – The Square**<br>**Penyffordd / Penymynydd**<br>**Treffynnon – Aston Park Road**<br>**Treffynnon - Central Drive** |

Mae rhai polisïau penodol seiliedig ar le a amlinellir yn cynnwys:

### STR9: Canolfannau Manwerthu a Datblygiad

Bydd datblygiadau manwerthu yn cael eu harwain gan Hierarchaeth Manwerthu'r Sir. Bydd y dull yma yn amcanu at gynnal a gwella bywiogrwydd, hyfywedd ac apêl canolfannau tref, rhanbarth a lleol Sir y Fflint, gan gefnogi darparu cyfleusterau manwerthu cyfleus, swyddfeydd, hamdden, adloniant a diwylliannol priodol.

Canolfannau manwerthu fydd y lleoliad a ffafrir ar gyfer dibenion manwerthu, hamdden, swyddfeydd, cymdeithasol newydd ac eraill mewn canol trefi. Bydd angen i ddatblygiadau mawr gydymffurfio ag egwyddorion 'canol trefi yn gyntaf' Polisi Cynllunio Cymru o ran Prawf Angen, Prawf Dilyniannol ac Asesiad o Effaith Manwerthu.

O ystyried rôl gyfnewidiol canol trefi, mae Canol Trefi ac Ardaloedd Siopa Sylfaenol yn cael eu diffinio drwy gydnabod yr angen am beth hyblygrwydd o ran cynnal meddiannaeth a nifer ymwelwyr, ac er mwyn galluogi defnyddio dull wedi ei deilwra ar gyfer pob canolfan gan ystyried gwiriadau iechyd, uwch gynlluniau a chynlluniau gweithredu.

# COMMUNITY AND ECONOMIC PROFILE

## Poblogaeth

Mae 1,900 o bobl yn byw yng nghymuned Queensferry (Cyfrifiad 2021)

## Troseddu

Yn ôl Ystadegau Troseddu'r DU, roedd Queensferry yn 24ain allan o 31 o drefi o fewn radiws o 5 milltir o ran cyfanswm troseddau a chyfradd troseddu ym mis Rhagfyr 2024. Y troseddau a gafodd eu hadrodd amlaf oedd ymddygiad gwrth-gymdeithasol (84 o ddigwyddiadau) a throseddau treisgar (96 o ddigwyddiadau), a adroddwyd dros gyfnod o 12 mis

## Dosbarthiad Oedran

Mae gan Queensferry gyfran is na'r cyfartaledd o boblogaeth iau, rhyw 2 bwynt canran yn is na chyfartaledd Cymru ar gyfer pobl rhwng 10 a 19 oed. Yna mae'n dechrau dringo'n uwch na chyfartaledd Cymru ar gyfer pobl rhwng 25 a 35 oed, gydag 8.9% o'r boblogaeth rhwng 30 a 40 oed. Mae'n tueddu i olrhain cyfartaledd Cymru, er ei fod ychydig yn uwch i'r rhai rhwng 40 a 60 oed, ond yna'n dechrau lleihau, gyda 4.6% o'r boblogaeth rhwng 65 a 69 oed o'i gymharu â chyfartaledd Cymru o 5.7%. O hynny ymlaen, mae Queensferry yn dangos gostyngiad o 0.5% yn y rheini rhwng oedran ymddeol a 84.

Mae'r ffigurau hyn yn dangos nad yw'r gymuned yn debygol o fod yn ddeniadol i deuluoedd iau, gyda nhw'n tueddu i fod mewn cymunedau mwy gydag ysgol gynradd gerllaw. Fel lle sy'n agos at gyflogaeth Glannau Dyfrdwy, mae'r oedran gweithio rhwng 25 a 60 oed yn uwch na ffigurau Cymru gyfan, ac nid yw'r gymuned yn arddangos poblogaeth oedrannus sylweddo. Gall hyn o bosibl fod yn gysylltiedig â disgwyliad oes neu bobl sydd angen gofal yn ei gael mewn mannau eraill.

## Galwedigaethau

Mae proffil galwedigaethol Queensferry yn tueddu tuag at grefftau medrus (14%), gweithredwyr prosesau a pheiriannau (20.7%) a galwedigaethau elfennol (18%), gyda thrigolion yn tueddu i gael llai o gynrychiolaeth mewn swyddi rheolwyr a chyfarwyddwyr (7.65%) a galwedigaethau proffesiynol (8.6%) o gymharu â chyfartaleddau Cymru gyfan o 10.5% yn y naill a 18.2% yn y llall.

## Tai

Mae'r gyfran o berchentyaeth ymysg aelwydydd yn Queensferry yn 5.5 pwynt canran yn is na chyfartaledd Cymru o 32.5% gyda 26.1% o'r cymuned yn rhentu'n breifat neu'n byw yn ddi-rent, tua 9 pwynt canran uwchlaw ffigurau Cymru gyfan. Mae llai o bobl yn rhentu'n gymdeithasol sydd oherwydd bod llai o landlordiaid cymdeithasol yn y dref

## Gweithgarwch Economaidd

Ymddengys fod y cyfran o bobl economaidd weithgar yn Queensferry (62%) yn sylweddol uwch nag yng Nghymru gyfan (53.5%). Mae gan Queensferry gyfran gyfartalog o unigolion di-waith ar 3.2%, gyda 13% o'r gymuned yn economaidd anweithgar

## Cerbyd

Mae'r gyfran o gartrefi heb gar yn Queensferry (21.3%) ychydig yn uwch na chyfartaledd Cymru (19.4%). Mae mynediad uwch na'r cyfartaledd at 1 car/fan i bob cartref (44.3%) o gymharu â chyfartaledd Cymru (41.7%), gyda thrigolion yn llai tebygol o gael 2 gar neu fan yn eu cartref o gymharu â ffigurau Cymru gyfan. Gall hyn fod yn gysylltiedig â bod llai o gartrefi teulu sengl yn y gymuned a mwy o tueddiad o gartrefi 1 neu 2 lofft.

## Cymwysterau

Mae'r gyfran o drigolion Queensferry sydd heb ddim cymwysterau yn 29%, bron i 10 pwynt canran yn uwch na chyfartaledd Cymru. Mae'r gymuned yn tueddu i fod yn gyson â ffigurau Cymru gyfan ar gyfer cymwysterau Lefel 1, 2 a 3 ar 39.6%, gyda chyfran uwch o'r gweithlu yn ennill prentisiaethau ar 7.2%, sydd â chysylltiad cryf â'i sail gyflogaeth gweithgynhyrchu. Mae gan 19.6% o breswylwyr gymwysterau Lefel 4 ac uwch, tua 11.9 pwynt canran yn llai na'r cyfartaledd cenedlaethol.

## Iechyd

Mae trigolion Queensferry yn llai tebygol o raddio eu hiechyd fel "da iawn" o gymharu â chyfartaledd Cymru, ond yn fwy tebygol o'i ddisgrifio fel "da" neu "weddol", gyda ffigurau rhwng 2.8 a 3.8 pwynt canran yn uwch na chyfartaledd Cymru gyfan

## Teithio

Mae 58% o boblogaeth Queensferry yn teithio llai na 10km i'r gwaith, sydd 21.7% yn fwy na chyfartaledd Cymru. Mae hyn yn adlewyrchu agosrwydd cyflogwyr mawr sydd wedi'u lleoli yng Nglannau Dyfrdwy, i gyd o fewn 15 munud mewn car. Mae preswylwyr yn llai tebygol na'r cyfartaledd cenedlaethol i deithio rhwng 10km a 30m, a dros 30km, i'w gweithle. Dim ond 13.2% sy'n gweithio gartref, sydd bron i hanner cyfartaledd Cymru, sef 25.6%. Mae hyn yn awgrymu sail gyflogaeth leol gref, o dan oruchafiaeth gweithgynhyrchu, dosbarthu, a chyflogwyr mawr sector gwasanaethau. Mae'r sectorau hyn yn tueddu i gyflogi mwy o bobl mewn swyddi gweithredu prosesau a pheiriannau, sydd fel arfer yn dibynnu ar weithio ar leoliad yn hytrach nag o bell.

## Iaith

Mae trigolion Queensferry yn sylweddol lai tebygol o fod yn gallu darllen, siarad neu ysgrifennu Cymraeg (8%) na phoblogaeth gyffredinol Cymru (20%), gyda 88.6% heb ddim sgiliau Cymraeg o gwbl.


## Cymysgedd o Ddibenion a Gweithgareddau

Mae'r siartiau gyferbyn yn dangos y cymysgedd o ddibenion a gweithgareddau o fewn ffin Canol y Dref.


Mae gan Queensferry 80 o unedau masnachol o fewn ei ffin ardal y canol. Mae'r rhan fwyaf o'r rhain wedi'u lleoli ar y B5441 neu B5129. Oherwydd ei lleoliad oddi ar y B5129 a'i agosrwydd at yr A449, yr A550 a Gwibffordd Gogledd Cymru yr A55, mae Queensferry yn gyfleus i alw heibio, sydd wedi arwain at nifer o gaffis, siopau cludfwy a siopau cyfleustra yn masnachu.

Yr unig uned ffisegol y tu allan i'r B5129 yw archfarchnad fawr Asda, sydd hefyd yn gartref i McDonalds, Timpsons, George Clothing, lle golchi ceir IMO a gorsaf betrol. Mae hyn wedi'i wahanu oddi wrth ran graidd siopau a gwasanaethau Canolfan yr Ardal gan y B5129, sy'n gyffordd briffordd sylweddol.

Gyferbyn ag Asda, mae siopau a gwasanaethau Canolfan yr Ardal wedi'u canoli o amgylch y B5441. Mae unedau fformat mwy, fel garejys atgyweirio moduron a siop gwelyau a nwyddau cartref, ar yr ymylon, gyda'r rhan fwyaf o mae'r unedau masnachol naill ai yn ffryntiadauu sengl neu ddwbl a phob un yn ddau lawr o uchder. Y tu ôl i'r brif ardal siopa, ceir canolfan feddygol, ynghyd ag adeilad cyfnewidfa ffôn a neuadd y capel. Mae terasau preswyl gerllaw gyda pharcio ar y stryd.




Ffigur 1 - Dadansoddiad o ddibenion canol trefi yn ôl dosbarth defnydd




Ffigur 2 - Dadansoddiad o ddibenion canol trefi yn ôl segment

Mae Ffigur 2 a Ffigur 3 (drosodd) yn dangos bod Queensferry yn debyg i Shotton, Treffynnon a threfi eraill y DU gyda chynnig a arweinir gan wasanaethau yn bennaf (29%) gydag iechyd a harddwch, siopau cludfwyd a gwasanaethau proffesiynol eraill wedi'u lleoli yng nghanol yr ardal. Mae yna hefyd academi hyfforddi gwallt a harddwch, Kings Academy, sydd wedi symud o ofod llawr uchaf i uned llawr gwaelod mwy yn lle hen siop ddylunio ceginau. Mae'r rhan fwyaf o'r busnesau yn lleol gyda'r unig gadwyni cenedlaethol yn y cynnig cludfwyd gyda KFC a Dominos, yn ogystal â'r siop gyfleustra Spar. Nid yw'r ganolfan ardal bellach yn gartref i unrhyw fanciau cenedlaethol na chymdeithasau adeiladu, ac mae tystiolaeth bod nifer o hen adeiladau banc wedi cael eu hailbwrpasu ers hynny.

Mae'r cynnig bwyd a diod yn canolbwyntio ar nifer o gaffis, a oedd yn dangos prysurdeb da ar adeg ein harolwg gyda chaffi'r Old Bank a'r Ferry Diner bod yn boblogaidd. Mae'r mathau hyn o ddefnydd yn tueddu i fywiogi eu ffryntiau strydoedd gyda byrddau a chadeiriau a thynnu sylw traffig sy'n pasio. Mae siopau cludfwyd yn amlwg ar y stryd gyda byrgyr, Indiaidd, Tsieineaidd, cebab, pizza, a mwy. Mae'r gweithgarwch tai bwyta yn ymwneud yn bennaf â bwyd Indiaidd a Tsieineaidd. Nid oes tafarn o fewn y ardal y canol a dim ymdeimlad go iawn o leoedd i gwrdd yn ystod gyda'r nos.


Mae'r cynnig cyfleustra yn cael ei gynrychioli gan nifer o siopau cyfleustra ar hyd y stryd fel Spar a delicatessen dwyrain Ewrop.

Mae'r cynnig heblaw bwyd yn cyflwyno ei hun gyda nifer o fusnesau cyrchfan sy'n debygol o ddenu pobl o'r tu allan i ardal Queensferry. Mae'r rhain yn cynnwys Queensferry Sportswear, Deeside Vinyl (recordiau), gwneuthurwyr ffrogiau priodas (Little Dress Co) a Gemini Blinds and Awnings.

Mae nifer o wasanaethau proffesiynol hefyd i'w cael yn Queensferry gan gynnwys cyfrifwyr, trwyddedau fisa, asiantaethau recriwtio ac ymgymerwyr angladdau. Mae dwy garej atgyweirio moduron hefyd yn wynebu'r B5441 sy'n cynnig mynediad hawdd ar gyfer MOT a gwaith mecanyddol. Mae pedwar ar ddeg o eiddo preswyl, sydd mewn teras ac yn tueddu i fod ar gornel ogledd-ddwyreiniol canol yr ardal.

Mae'r gyfradd eiddo gwag yn Queensferry o 18% yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol (14%) gydag eiddo heb feddiannaeth yn tueddu i gael eu gwasgaru ar hyd ffryntiad y B5129. Mae unedau gwag yn tueddu i fod yn fwy o ran maint ac yn tarfu ar rai o'r ffryntiau gweithredol. Mae yna hefyd broblem gyda nifer sylweddol o gaeadau diogelwch allanol cadarn sy'n rhoi argraffiadau cyntaf gwael a neges ddryslyd ynghylch a yw'r busnes yn weithredol ai peidio. Mae hon yn her allweddol i Queensferry.

Ffigur 3 – Dadansoddiad o Ddibenion Canol y Dref yn ôl Gweithgaredd




Ffynhonnell: Chris Jones Regeneration

## DADANSODDIAD O FFRYNTIAD STRYDOEDD

Mae Ffordd yr Orsaf (B5441) yn gwasanaethu fel coridor masnachol a phreswyl hanfodol. Mae ffryntiad y stryd yn cael ei nodweddu gan gymysgedd o sefydliadau manwerthu, darparwyr gwasanaethau, ac unedau preswyl.

Mae ansawdd ffryntiad y stryd yn amrywio ar hyd y stryd.

Mae'r ffryntiad o ansawdd uwch wedi'i leoli ar ochr dde'r stryd lle mae nifer o adeiladau hanesyddol wedi'u hailbwrpasu at ddefnyddiau/gwasanaethau lleol.

Mae ansawdd y ffryntiadau yn gostwng tuag at ben deheuol y stryd lle mae amrywiaeth o unedau cludfwyd gyda drysau caeadau llwyd.



## CRYNODEB O 'GIVE MY VIEW'

Fel rhan o'r ymgynghoriad cymunedol, defnyddiodd Cyngor Sir y Fflint y platfform digidol 'Give My View' i ddatblygu arolwg a hyrwyddwyd drwy ymgyrch cyfryngau cymdeithasol. Cynhyrchodd yr ymgyrch hon:

- 146,407 argraffiadau
- 25,020 o gyraeddiadau, gyda
- 1,594 o bobl yn clicio ar yr arolwg.

Ar ôl clicio ar yr arolwg, cwblhawyd 1143 o arolygon gyda 830 o sylwadau agored wedi'u derbyn, a oedd yn cefnogi'r dadansoddiad o anghenion lleol a'r blaenoriaethau ar gyfer y Cynllun Creu Lleoedd.

Roedd yr ymgyrch cyfryngau cymdeithasol yn fwyaf effeithiol gyda chynulleidfaoedd hyn, gyda'r rhai dros 65 oed yn dangos y lefel uchaf o ymateb, wedi'i ddilyn yn agos gan y rhai rhwng 55 a 64. Facebook oedd y platfform mwyaf llwyddiannus gydag Instagram yn dod yn ail.

**43%** *o bobl yn graddio canol tref Queensferry fel lle croesawgar*

**36%** *o bobl teimlo'n gadarnhaol ynghylch cynnig presennol canol y dref*

**43%** *bobl yn graddio Queensferry fel lle â chysylltiadau da â gwasanaethau a chyfleusterau lleol*

*Ansawdd bywyd a diogelwch yw'r flaenoriaeth uchaf i drigolion*




Un gair cadarnhaol am ganol tref Queensferry ar hyn o bryd




Un gair negyddol am ganol tref Queensferry ar hyn o bryd

**Y prif welliannau i'w gwneud yn Queensferry yw:**

- Tref lanach – 46%
- Lle parcio – 35%
- Eiddo gwag – 28%
- Gwasanaethau – 26%
- Mwy o wyrddni – 27%
- Gweithgarwch cymunedol – 12%
- Hygyrchedd – 6%

**Y 3 phrif reswm dros ymweld â chanol tref Queensferry yw:**

- Siopa groser – 59%
- Gwasanaethau 46%
- Gweithio – 14%

**Beth yw'r 5 prif beth i fuddsoddi ynddo ar gyfer y dyfodol?**

- Cyfleoedd siopa – 55%
- Gwelliannau i adeiladau – 45%
- Iechyd a llesiant – 40%
- Materion amgylcheddol – 33%
- Mynediad a thrafnidiaeth – 30%

**Pa mor aml mae pobl yn ymweld â chanol tref Queensferry?**

- Bob dydd – 20%
- Sawl gwaith yr wythnos – 26%
- Sawl gwaith y mis – 17%
- Anaml – 15%
- Unwaith yr wythnos – 14%
- Unwaith y mis – 9%

**Sut mae pobl yn mynd i ganol tref Queensferry?**

- Car – 83%
- Cerdded – 34%
- Bws – 7%
- Beic – 5%
- Trafnidiaeth gymunedol – 2%

**Pa amser o'r dydd mae pobl yn ymweld?**

- Bore – 35%
- Amser cinio – 11%
- Prynhawn – 31%
- Gyda'r nos – 26%
- Yn y nos – 3%
- Drwy'r dydd – 11%


**Pa mor hir mae pobl yn aros?**

- Dw i mewn ac allan – 76%
- Dw i'n treulio ychydig oriau – 10%
- Aros y rhan fwyaf o'r dydd – 7%
- Dw ddim yn ymweld yn aml – 7%

## Y LLE – CEFNDIR A LLEOLIAD

Tref a chymuned yn Sir y Fflint, yng ngogledd-ddwyrain Cymru, yw Queensferry. Mae wedi'i lleoli ger aber afon Afon Dyfrdwy ac mae'n gorwedd i'r de-ddwyrain o ddinas Caer dros y ffin yn Lloegr.

Nid tref sy'n sefyll ar ei phen ei hun yw Queensferry. Mae'n rhan o gymuned ehangach Glannau Dyfrdwy, sy'n cynnwys trefi eraill fel Shotton a Chei Connah gan ei wneud yn rhanbarth sy'n cyfuno datblygiadau preswyl, diwydiannol a masnachol. Mae'r trefi wedi'u cysylltu gyda'i gilydd trwy rwydwaith cryf o ffyrdd a rheilffyrdd. Mae gan yr ardaloedd hyn lwybrau cerdded a beicio eisoes, sy'n gosod sail ar gyfer gwella i ddarparu cysylltiadau cryfach ar droed/ar feic.



## SYMUDIAD

Mae Queensferry wedi'i chysylltu'n dda trwy rwydwaith o brif ffyrdd sy'n hwyluso teithio effeithlon o fewn y rhanbarth.

Mae'r A494 yn gwasanaethu fel prif ffordd trwy Queensferry, gan gysylltu'r dref â chyrchfannau allweddol.


Mae ffyrdd y B5441 a'r B5129 hefyd yn gwasanaethu Queensferry, gan roi mynediad i'r ardaloedd cyfagos sy'n cyfrannu at y rhwydwaith ffyrdd lleol.

Mae'r dref yn elwa o fod yn agos at sawl gorsaf reilffordd, gan gynnwys Shotton a Phont Penarlâg, sy'n cael eu gwasanaethu gan Reilffordd y Gororau a Rheilffordd Arfordir Gogledd Cymru.

Mae Queensferry yn cynnig rhwydwaith o hawliau tramwy cyhoeddus sy'n cynnig mynediad i dirweddau golygfaol a chyfleoedd hamdden.

Mae Llwybr 5 y Rhwydwaith Beicio Cenedlaethol yn cael ei adnabod fel Llwybr Arfordir Gogledd Cymru sy'n ymestyn o Gaer i Gaergybi.

Mae Llwybr Arfordir Cymru yn rhedeg ar hyd Afon Dyfrdwy heibio'r dref. Mae'r llwybr hamdden hwn yn hawdd ei gyrraedd o'r dref trwy ychydig o lwybrau allweddol o dan y rheilffordd ogleddol.



## ASEDAU LLEOL

Mae gan Queensferry nifer o asedau lleol sydd o fudd i'r gymuned leol.

Mae'r dref yn cynnwys amrywiol gymdogaethau preswyl, gan fod yn gartref hefyd i sawl ystad ddiwydiannol a siopau, gan gynnwys Parc Siopau Glannau Dyfrdwy, siop fwyd Asda a'r Ganolfan Hamdden.

Mae nifer o ysgolion cynradd wedi'u lleoli o amgylch Queensferry o fewn pellter cerdded i'r gymuned leol.

Mae nifer o feysydd chwaraeon a hamdden wedi'u lleoli ledled Queensferry. Mae Canolfan Chwaraeon a Chymunedol Shotton Uchaf yn cynnig amrywiaeth o glybiau chwaraeon ar gyfer pobl leol. Mae nifer o gaeau hamdden wedi'u lleoli ledled y dref gan roi mannau gwyrdd a lleoedd llesol o fewn cyrraedd hawdd i'r holl drigolion.

Ar y cyfan, mae gan Queensferry gymysgedd o fathau o dir o ddibenion preswyl, diwydiannol a hamdden, a ategir gan amrywiaeth o amwynderau sy'n diwallu anghenion y gymuned.




- Archfarchnad
- Addysg
- Busnesau
- Hamdden
- Gorsaf Dân
- Cymuned
- Prif Stryd Fawr
- Diwydiannol
- Man Addoli
- Meddygol
- Adeilad Rhestredig

## PORTH I QUEENSFERRY

1. Mae'r fynedfa yn dioddef o fannau gwyrdd sy'n brin o ddiben, sy'n tynnu sylw at yr ymddangosiad ac yn gadael argraff negyddol ar bobl leol ac ymwelwyr.

2. Diffyg arwyddion clir i gyrchfannau allweddol (canol y dref) wrth i chi ddynesu at Queensferry o'r B5129.

3. Mae'r gor-ddefnydd o reiliau a lle a ddarperir ar gyfer cerbydau yn effeithio ar ansawdd esthetig mynedfa'r porth, gan greu ymdeimlad anghroesawgar i bobl nad ydynt yn fodurwyr wrth gyrraedd yr ardal.

4. Nid oes gan y porth groesfannau na lonydd beiciau wedi'u cynllunio'n dda sy'n gwneud yr ardal yn llai hygyrch i gerddwyr a beicwyr.

5. Mae'r fynedfa'n brin o hanes a chymeriad Queensferry, gan arwain at ddiffyg cydlyniant yn hunaniaeth weledol y dref.

6. Mae'r fynedfa o'r B5129 yn teimlo wedi'i datgysylltu oddi wrth weddill Queensferry a'i amgylchiadau naturiol (fel ystadau tai a chyfleusterau lleol) gan greu ymdeimlad o anghysondeb.

7. Lle sydd o dan oruchafiaeth lethol y briffordd.







## GRAEN TREFOL – CROESI'R FFORDD

Mae canol tref Queensferry yn dangos graen trefol cryno. Mae'r adeiladau'n agos at ei gilydd, ac mae dwysedd cymharol uchel. Mae hyn yn cyfrannu at amgylchedd cerddadwy lle mae gwasanaethau, siopau a phreswylfeydd yn agos at ei gilydd.

Mae'r graen. trefol yn dod yn llai caeedig ac yn fwy gwasgaredig tuag at ran orllewinol y dref gan olygu bod adeiladau allweddol wedi eu datgysylltu oddi wrth stryd fawr canol y dref.



## CYFLEOEDD A CHYFYNGIADAU

1. Man cyrraedd a phorth gwael i Queensferry. Gallai gwella'r profiad o'r porth olygu gwella arwyddion, gwella ffyrdd a llwybrau cerdded, neu greu mynedfa fwy croesawgar gyda chelf gyhoeddus neu wyrddni. Y nod fyddai gwneud i ymwelwyr deimlo'u bod yn cael mwy o groeso a'u cysylltu â'r dref o'r eiliad y maent yn cyrraedd.

2. Gwella croesfannau i gerddwyr ar y B5219 i gysylltu'r stryd fawr yn well â chyfleusterau allweddol. Bydd gwella croesfannau cerddwyr yn gwella diogelwch a hygyrchedd ac yn blaenoriaethu symudiad cerddwyr o fewn ardal lle mae llawer o gerbydau yn symud.

3. Ailbwrpasu adeiladau gwag neu segur i adfywio'r ardal.

4. Cryfhau cysylltiadau presennol i gerddwyr ar droed/beic. Mae gwella llwybrau cerdded / beicio rhwng cyrchfannau allweddol yn ffordd wych o annog trafnidiaeth fwy cynaliadwy a helpu i gysylltu graen trefol gwasgaredig y dref yn well.

5. Byddai plannu mwy o blanhigion ar hyd stryd fawr ffordd yr orsaf yn helpu i feddalu amgylchedd y stryd, gan ei wneud yn fwy atyniadol ac yn fwy diogel i gerddwyr a beicwyr.














4


4


4


Toiledau wedi cau ar gyfer defnydd preswyl yn y dyfodol
Canolfan Hamdden Glannau Dyfrdwy
B5129
Y Stryd Fawr yn brin o goed / planhigion stryd
5
Ffordd yr Orsaf
3
2
Ysgol Gynradd Queensferry
Adeiladau gwag i'w hailddefnyddio
A494
1
Sefydliad Rhestredig Coffa Rhyfel
Cryfhau cyswllt i gerddwyr o'r stryd fawr i gyfleusterau allweddol
Mae'r prif borth yn amgylchedd caled iawn ac mae'n brin o deimlad o gyrraedd
4
Asda
A494
B5129
Ffordd Aston
4
4
Ffyrdd o dan oruchafiaeth ceir wrth fynd i mewn i'r dref a thrwyddi
Mae'r llwybrau presennol i gerddwyr yn brin o gyfeiriad clir

## DADANSODDIAD O GANOL Y DREF

Mae Ffordd yr Orsaf yn dramwyfa ganolog sy'n rhedeg trwy Queensferry. Mae'r ffordd ag amrywiaeth o fusnesau preswyl a masnachol, gan gynnwys siopau manwerthu, sefydliadau bwyta, a darparwyr gwasanaethau, sy'n cyfrannu i awyrgylch cymunedol bywiog yr ardal.

Mae Ffordd yr Orsaf yn rhan hanfodol o Queensferry, sy'n adlewyrchu hanes cyfoethog y dref gan wasanaethu fel canolbwynt ar gyfer masnach leol a bywyd cymunedol.




- Seddau tu allan i gaffis
- Unedau masnachol
- Ailddefnyddio adeiladau treftadaeth
- Preswyl
- Adeiladau diffaith
- Meysydd Parcio
- Adeilad o ansawdd da
- Lle i gerddwyr
- Canolfan Iechyd
- Pwyntiau croesi i gerddwyr
- Blychau planhigion

# DADANSODDIAD SWOT LLE

## CRYFDERAU

- Cysylltiadau da â Glannau Dyfrdwy a'r A55/Gwibffordd Gogledd Cymru.
- Mae nifer o orsafoedd trên gerllaw sy'n gwasanaethu rheilffyrdd y Gororau a Gogledd Cymru.
- Mynediad at Afon Dyfrdwy ac i lwybrau cerdded a beicio cenedlaethol.
- Mae'r B5441 yn cysylltu â datblygiadau preswyl mawr yn Garden City a chynlluniau cyfagos eraill.
- Mae rhai mannau / parciau chwaraeon, hamdden a chwarae o fewn 10 munud ar droed i ganol y dref.
- Mae canol y dref yn teimlo'n gryno ac yn hygyrch.
- Mae gan Queensferry gymeriad a hunaniaeth "cymdogaeth".
- Mae canol y dref yn teimlo'n gyfleus ac yn lle i wibio i mewn iddo yn ogystal â diwylliant caffi traddodiadol.
- Mae amwynderau nad ydynt yn manwerthu yn cynnwys canolfan feddygol.
- Mae strydoedd teras yn ychwanegu at gymeriad ac yn cynnwys cymuned agos.
- Mae canol y dref yn rhannu tueddiad y DU mewn cynnig gwasanaethau yn bennaf gydag iechyd a harddwch, cludfwyd a gwasanaethau proffesiynol eraill.
- Mae bwyd a diod wedi'i ganoli ar gaffis gydag enw da ac ansawdd gwasanaeth, gan ychwanegu at fywiogrwydd stryd.
- Mae pobl yn teimlo bod canol y dref yn groesawgar.
- Mae pobl yn graddio canol y dref fel lle sydd â chysylltiadau da â gwasanaethau a chyfleusterau lleol.
- Mae llwybrau cerdded a beiciau yn agos at ganol y dref.
- Mae parcio ar y stryd yn rhoi cyfleoedd i siopa gwibio i mewn gan gwsmeriaid 'pasio trwodd'.
- Yn gyffredinol, mae llwybrau troed yn llydan gan ganiatáu llawer o le i gerddwyr / siopwyr tra hefyd yn cynnig cyfleoedd i fasnachwyr ymestyn allan i'r stryd.
- Mae 'stryd fawr' gryno yn teimlo'n lleol ac ar raddfa ddynol.
- Mae gan wead sylfaenol adeiladau dreftadaeth gyda rhai manylion diddorol ac o ansawdd da.

## GWENDIDAU

- Mae archfarchnad Asda wedi'i gwahanu oddi wrth ganol y dref gan y B5129 ac nid yw'n rhannu'r un ymdeimlad o le sydd yn Queensferry.
- Mae unedau mawr yn fwy tueddol o fod yn wag.
- Mae rhai adeiladau adfeiliedig fel toiledau cyhoeddus, hen gyfnewidfa BT a neuadd yr eglwys - yn ychwanegu at rywfaint o deimlad gwael yn y lle.
- Dim banciau cenedlaethol na chymdeithasau adeiladu yng nghanol y dref.
- Diwylliant cludfwyd gyda rhai busnesau nad ydynt yn cyfrannu'n gadarnhaol i weithgarwch stryd.
- Dim lle i gyfarfod gyda'r nos – dim tafarn, bar na bwyty.
- Cyfradd eiddo gwag uwch (18%) o'i gymharu â chyfartaledd y DU o 14%.
- Unedau gwag sy'n fwy o faint ac yn tueddu i amharu ar ffryntiadau gweithredol.
- Goruchafiaeth caeadau diogelwch, nad ydynt yn rhoi argraffiadau cyntaf cadarnhaol.
- Porth i mewn i'r dref, gerllaw Asda, dan ourchafiaeth lethol ceir: nid yw'n amgylchedd braf i gerddwyr a beicwyr o dan ormes traffig a nodweddion priffyrdd
- Anghysondeb yn nhu blaen siopau gyda chymysgedd o ansawdd da a gwael.
- Mae'r blychau dur ar gyfer planhigion yn fwy o ddur na phlanhigion ac, yn eu cyflwr presennol, nid ydynt yn gwneud fawr ddim i wella seilwaith gwyrdd y lle.
- Gall Ffordd yr Orsaf fod yn anodd ei chroesi oherwydd swm a chyflymder traffig.
- Mae saernïaeth adeiledig hanesyddol y lle wedi cael ei wanhau dros amser trwy ymyriadau o ansawdd gwael.
- Angen gwell cynnal a chadw'r strydlun yn gyffredinol – e.e. biniau sigaréts yn orlawn.

- Gallai academi gwallt a harddwch chwarae rhan allweddol mewn cynhyrchu gweithgarwch.
- Rhai busnesau sefydledig a rhai sy'n dod i'r amlwg e.e. siop chwaraeon, recordiau, llenni ac adlenni.
- Ansawdd bywyd a diogelwch yw'r flaenoriaeth uchaf i breswylwyr.
- Mae glendid strydoedd yn faes i'w wella.
- Adnewyddu / dymchwel / ail-ddychmygu adeiladau a safleoedd adfeiliedig presennol gerllaw'r stryd fawr.
- Rhoi mwy o barch i'r dreftadaeth adeiledig trwy wella ffryntiau siopau mewn ffordd sy'n helpu i greu cysondeb cyffredinol tra'n dal i ganiatáu unigolyddiaeth - ailsefydlu a 'arddangos' saernïaeth adeiledig hanesyddol y lle.
- Creu gwell cyfleoedd i dreulio amser o fewn y strydlun: seddau a mannau gorffwys dymunol a deniadol.
- Annog mwy o fasnachwyr i weld y strydlun fel estyniad awyr agored i'w busnes: seddau ac arddangosfeydd awyr agored.
- Gwella'r porth dwyreiniol wrth y bont rheilffordd.
- Gwella seilwaith gwyrdd y stryd: tirwedd, bioamrywiaeth, draenio, newid yn yr hinsawdd, cysgod a helpu i ddiffinio lleoedd i dreulio amser.
- Archwilio cyfleoedd i ddiffinio cyfleoedd croesi'r stryd yn well i gerddwyr – amlygu croesfannau ar hyd y stryd.
- Archwilio'r cyfle i weithio gydag Asda neu ganolfan hamdden i hyrwyddo teithiau cyfunol / cysylltiedig.

## CYFLEOEDD

## BYGYTHIADAU

- Cynnydd mewn dwysedd traffig yn effeithio ar ansawdd yr amgylchedd.
- Newid yn yr hinsawdd a risg llifogydd sy'n deillio o hynny.
- Canolfannau eraill sy'n cystadlu yn erbyn Queensferry.
- Tueddiadau'r DU mewn gweithgarwch siopa.
- Cyfleoedd siopa yn Shotton gerllaw.
- Cwmnïau cenedlaethol fel Starbucks yn Asda a'r Greggs arfaethedig posibl yn bygwth siopau annibynnol llai.

# DADANSODDIAD SWOT POBL

## CRYFDERAU

- Mae gan y dref gynrychiolaeth dda yn y grŵp oedran 25 a 35, sydd o ganlyniad i gyflogaeth yng Nglannau Dyfrdwy gerllaw.
- Mae'r gweithlu yn tueddu i fod mewn crefftau mwy medrus, prosesau a pheiriannau, sy'n gysylltiedig â gweithgynhyrchu yng Nglannau Dyfrdwy.
- Mae'r dref a'r dalgylch yn y 24ain safle allan o 31 ar gyfer cyfradd troseddu (Rhagfyr 2024).
- Patrwm o deithio agos i'r gwaith gyda 58% yn teithio llai na 10 km i'r gwaith oherwydd tynfa cyflogaeth yng Nglannau Dyfrdwy.
- Mae gan 39.6% o breswylwyr gymwysterau Lefel 1, 2 a 3.
- Sylfaen brentisiaeth gref yn yr ardal.
- Lefelau uchel o gymwysterau Lefel 4 ar 19.6%.
- Mae trigolion yn graddio eu hiechyd tua 2.8 a 3.8 pwynt canran yn uwch na chyfartaledd Cymru.
- Mae'r gymuned yn fwy gweithgar yn economaidd na chyfartaledd Cymru, sef 60.2%.
- Mae diweithdra yn llai na chyfartaledd Cymru, sef 3.9%.

## GWENDIDAU

- Llai o gynrychiolaeth o boblogaeth hŷn yn (4.6%) na chyfartaledd Cymru, sef 5.7%
- Mae'r gymuned yn teimlo'n llai deniadol i deuluoedd iau.
- Llai o gynrychiolaeth mewn rolau rheoli a chyfarwyddwyr.
- Trigolion yn llai tebygol o allu darllen, siarad neu ysgrifennu Cymraeg.
- Llai o berchnogaeth cartref gyda phreswylwyr yn fwy tebygol o rentu'n breifat.
- Llai o landlordiaid cymdeithasol yn ardal Queensferry.
- Prif feysydd troseddu yw ymddygiad gwrthgymdeithasol a throseddau treisgar.
- Mae cyfran y trigolion heb gar ychydig yn uwch na chyfartaledd Cymru, sef 21.3%.
- Mae trigolion yn tueddu i fod yn berchen ar un car sy'n debygol o fod oherwydd bod llai o aelwydydd un teulu.
- Dim ond 13.2% sy'n gweithio gartref, sef hanner cyfartaledd Cymru.
- Mae'r gyfran o drigolion Queensferry sydd heb ddim cymwysterau 10% yn uwch na chyfartaledd Cymru.

## CYFLEOEDD


- Mae gan ardal gyflogaeth Glannau Dyfrdwy rai swyddi gwerth uwch a all fod o fudd i siopau a gwasanaethau canol tref Queensferry fel caffis.
- Mae cyflogwyr lleol yn cynnig cyfleoedd prentisiaeth a hyfforddeiaeth.
- Cysylltu gweithgarwch economaidd â siopau a gwasanaethau lleol.
- Rôl trafnidiaeth gyhoeddus gyda chyfradd is o berchnogaeth car yn y gymuned.

## BYGYTHIADAU

- Diwydiannau gweithfeydd cangen yng Nglannau Dyfrdwy – angen gwylio pwysau economaidd byd-eang.
- Angen i gyflogwyr mawr gofleidio ymchwil a datblygu ac arloesi mewn technoleg, fel arall byddant yn syrthio y tu ôl i gystadleuwyr.
- Argyfwng costau byw yng nghymunedau Glannau Dyfrdwy.

# FFRAMWAITH CYFLEOEDD

1. Mae'r brif gyffordd i Queensferry yn cynnig argraff gyntaf wael o'r dref. Mae cyfle i wella'r man gwyrdd presennol yn borth beiddgar "Croeso i Queensferry".
2. Gall y brif gyffordd fod yn anodd ei chroesi ac mae ganddi amgylchedd gwael i gerddwyr. Gall gwelliannau i'r gyffordd greu gwell cysylltiadau i gerddwyr a beicwyr rhwng Ffordd yr Orsaf ac asedau lleol allweddol eraill.
3. Dylai'r Sefydliad Coffa Rhyfel rhestredig fod wedi'i leoli mewn amgylchedd o ansawdd uchel sy'n gydnaws â statws yr adeilad.
4. Byddai arwyddion gwell yn helpu i wella cysylltiadau â'r llwybrau cerdded/beicio cyfagos i mewn ac allan o Queensferry.
5. Cyfle i uno Ffordd yr Orsaf trwy god dylunio unedig ac o ansawdd uchel ar gyfer tu blaen siopau.
6. Cyfle i wella Heol yr Orsaf i fod yn stryd fwy cyfeillgar i gerddwyr, trwy dirlunio, lleoedd i dreulio amser a mwy o fannau croesi.
7. Ailddefnyddio ac ailddatblygu adeiladau adfeiliedig i'w hadfywio.
8. Gellir defnyddio celf a goleuadau cyhoeddus i wella'r danffordd a chreu porth dwyreiniol i mewn i'r dref.



# 05:

# ADEILADU AR EI SYLFAEN

# BLAENORIAETHAU / THEMÂU SY'N DOD I'R AMLWG

## ANGEN/TYSTIOLAETH

**Mae'r rhwydwaith priffyrdd wedi ei ganoli o amgylch ffyrdd strategol i Lannau Dyfrdwy gyda chyffyrdd priffyrdd ar raddfa fawr ar yr A494 a'r B5129 sy'n arwain at deimlad fod canol tref Queensferry wedi ei dorri ymaith ac o dan oruchafiaeth traffig.**

## BLAENORIAETH/THEMA SY'N DOD I'R AMLWG

### Cyhoeddi a Hunaniaeth o'r A494 a'r B5129

Mae gwella amlygrwydd a hunaniaeth canol tref Queensferry ar gyffordd yr A494 a'r B5129 yn her sylweddol oherwydd graddfa a chymhlethdod y seilwaith priffyrdd. Fodd bynnag, mae angen clir i gyhoeddi canol y dref yn well cyn y gyffordd ac ar hyd Ffordd yr Orsaf, gan helpu i greu amgylchedd mwy diogel a chroesawgar i gerddwyr a beicwyr.

Gellid cyflawni hyn trwy arwyddion gwell a pwrpasol, triniaethau cerbytffordd (gan gynnwys lle gwag yn y canol), a nodweddion sy'n rhoi ymdeimlad cryfach o gyrraedd. Bydd cynnal mannau gwyrdd hefyd yn bwysig, gan gynnig cyfle i gyflwyno gwaith celf cyhoeddus sy'n adlewyrchu treftadaeth leol ac yn meithrin ymdeimlad o gymuned.





## ANGEN/TYSTIOLAETH

**Er bod Queensferry, o gymharu â chanol trefi eraill Glannau Dyfrdwy, yn ymddangos yn lanach ac ôl gofal yno, mae rhai dodrefn stryd, rheiliau diogelwch cerddwyr ac eitemau eraill sydd angen eu gwella. Mae palmentydd yn gyffredinol lydan ac mewn cyflwr da ond mae angen rheoli trwyddedu a chydgysylltu gweithgarwch stryd.**

## BLAENORIAETH/THEMA SY'N DOD I'R AMLWG

### Rheoli'r Lle

Adolygu sut mae'r lle yn cael ei reoli o'r man cyrraedd a sut mae dodrefn stryd yn gweithio gyda gwelliannau i hygyrchedd, ffryntiau masnachol a hunaniaeth gyffredinol y lle.

Mae angen i liwiau a deunyddiau weithio gyda phaled a chod dylunio adeiladau a hefyd manteisio ar gyfleoedd seilwaith gwyrdd o ran arosfannau bysiau, mannau i dreulio amser a defnydd o blannu coed/tirlunio meddal.





## ANGEN/TYSTIOLAETH

**Oherwydd traffig yn cyrraedd Glannau Dyfrdwy, mae Ffordd yr Orsaf yn brysur ar adegau brig, gyda llif cyson o gerbydau. Oherwydd hyd y stryd, gall fod yn anodd ei chroesi hyd yn oed gyda chroesfan a reolir sydd ymhellach i lawr yn ogystal â rhai croesfannau cwrteisi nas rheolir. Nid yw'r cerddwr yn teimlo y gall groesi oherwydd dwysedd a chyflymder y traffig gydag angen i gyhoeddi i yrwyr cerbydau eu bod mewn canol tref a cherddwyr yn symud o gwmpas ynddi.**

## BLAENORIAETH/THEMA SY'N DOD I'R AMLWG

### Hygyrchedd o fewn y stryd

O'r pwynt cyrraedd ar ddau ben Ffordd yr Orsaf, mae angen amlwg i wella hygyrchedd trwy ymestyn a gwella mannau croesi o fewn y gerbytffordd. Dylai'r gwelliannau hyn anelu at arafu cyflymder cerbydau yn naturiol, a thrwy hynny gynyddu diogelwch cerddwyr a chreu mwy o gyfleoedd ar gyfer croesi'n ddiogel o'r naill ochr a'r llall.

Yn ogystal, mae cyfle pwysig i dacluso amgylchedd y stryd, gan gael gwared ar dodrefn stryd, arwyddion neu rwystrau diangen, i agor gofod a all gefnogi busnesau lleol yn well. Yn ogystal â gwella apêl weledol, byddai cynllun stryd glanach, symlach hefyd yn gwneud mynediad yn haws ac yn fwy cynhwysol i bob defnyddiwr, gan gynnwys y rhai sydd â heriau symudedd.





## ANGEN/TYSTIOLAETH

**Mae gan ganol y dref gyfradd eiddo gwag o 18% gyda rhai o'r unedau mwyaf, yn ogystal â rhai safleoedd llai hefyd, yn wag. Nid yw'r rhain yn cyfrannu'n gadarnhaol at olygfa'r stryd ar hyd Ffordd yr Orsaf, gyda rhai o'r busnesau ar hyn o bryd â pherthynas weledol wael â'r stryd, yn tarfu ar y profiad cyffredinol. Mae tystiolaeth o rywfaint o fuddsoddiad trwy gymorth cynllun gwella adeiladau ond mae angen ei ehangu.**

## BLAENORIAETH/THEMA SY'N DOD I'R AMLWG

### Ansawdd y strydlun a ffryntiadau

Mae cymeriad adeiladau yn Ffordd yr Orsaf yn dameidiog ac nid yw'n cyflwyno cod dylunio unedig. Mae angen mynd i'r afael â hyn gyda landlordiaid a thenantiaid ac mewn cydweithrediad â ffryntiadau cyhoeddus fel bod canol y dref yn cyflwyno hunaniaeth fwy cydlynol.

Mae angen mynd i'r afael â rhai adeiladau amlwg allweddol ar y pen yn ogystal â rhai adeiladau rhyngddynt sy'n tynnu sylw oddi wrth yr adeiladau o ansawdd uwch.







## ANGEN/TYSTIOLAETH

**Mae nifer o adeiladau sy'n segur gerllaw canol y dref, gan gynnwys yr hen doiledau cyhoeddus, neuadd yr eglwys (Dundas Street) ac adeilad cyfnewidfa BT/GPO (Pierce Street) sy'n amharu ar safon canol y dref a'r gymdogaeth.**

## BLAENORIAETH/THEMA SY'N DOD I'R AMLWG

### Ailddefnyddio adeiladau segur

Mae'r Cyngor Sir wedi cynnal adolygiad o'r adeilad bloc toiledau. Mae cynllun ar gyfer datblygiad preswyl yn cael ei archwilio ar hyn o bryd.

Mae hen Neuadd yr Eglwys yn eiddo preifat ond mae'n meddiannu cornel stryd allweddol gydag angen iddi gyfrannu mewn ffordd fwy cadarnhaol at eiddo preswyl cyfagos.

Mae'r hen adeilad BT/GPO yn her sylweddol oherwydd perchnogaeth gydag angen deall sefyllfa perchennog yr adeilad o fewn y stryd breswyl hon.

Gallai gwaith celf cymunedol fod yn ateb dros dro ar gyfer rhai o'r adeiladau hyn a allai ddod â lliw ac ymdeimlad o falchder iddynt.





# GWELEDIGAETH, NODAU AC AMCANION STRATEGOL



## Gweledigaeth

Queensferry – lle i alw heibio am ei siopau a chaffis cyfeillgar a gwasanaethau lleol, agos at ei gymuned ac yng nghanol Glannau Dyfrdwy, ei afon a'i ddiwydiannau.



## Nodau Allweddol

Gwella hunaniaeth Queensferry oddi wrth yr A494 a'r B5129 mewn ffordd sy'n estyn croeso cymunedol cynnes ac sy'n gwneud amgylchedd y briffordd yn debycach i stryd a mwy cyfeillgar i bobl.

Gwneud Ffordd yr Orsaf yn fwy hygyrch fel "stryd", lle mae cerbydau'n teimlo eu bod yn mynd i amgylchedd sy'n rhoi'r pwyslais ar bobl.

Creu strydlun fwy ystyrlon sy'n adeiladu amrywiaeth, gweithgarwch ac sy'n cyflwyno profiad a chymdogaeth annibynnol unedig yn apelio at ymwelwyr sy'n mynd heibio.

Cydgysylltu'r gwaith o reoli'r parth cyhoeddus mewn ffordd sy'n sicrhau bywyd stryd lân, diogel a bywiog, yn ystod y dydd a gyda'r nos.





## Amcanion

Datblygu porth oddi ar yr A494 sydd o dan lai o oruchafiaeth ceir ac sy'n addas o ran y brif gerbytffordd, tirlunio, cyhoeddi Queensferry a chysylltiadau ffisegol cryfach ar draws y B5129.

Gwella Ffordd yr Orsaf drwy ddefnyddio egwyddorion dylunio seiliedig ar stryd sy'n gwella cyfleoedd i gerddwyr symud a threulio amser ac, o safbwynt gweledol, sy'n dod â'r parth cyhoeddus i olwg y stryd.

Canfod ffyrdd o gynnwys adeiladau a safleoedd gwag ac a danddefnyddir fel rhan o brofiad Queensferry sy'n diwallu anghenion masnachol, cymunedol a phreswyl.



Gwella adeiladau ar hyd Ffordd yr Orsaf trwy god dylunio lleol sy'n ffurfio rhan o hunaniaeth, paled a deunyddiau lleol, ac felly'n cyflwyno gweithgarwch busnesau annibynnol amrywiol a bywiog.

Datblygu dull rheoli lle rhwng y sector cyhoeddus a'r sector preifat sy'n ymdrin â'r strydlun, glanhau a chynnal a chadw a chanfod cyfleoedd am weithgarwch stryd.

# CYFLEOEDD LLE A PHOBL

Er mwyn gwireddu'r weledigaeth, y nodau a'r amcanion, canfuwyd y cyfleoedd canlynol.

## Cyfleoedd Lle



**Tref Groesawgar Queensferry – Creu Argraff Gyntaf gref**



**Dathlu Hanes a Chymeriad Queensferry**



**Cymryd Balchder mewn Mannau Cyhoeddus**



**Stryd Lawn Gweithgarwch**



**Mynd i'r Afael â Safleoedd ac Adeiladau Segur**

## Cyfleoedd Pobl



**Tyfu Tref Wyrddach yn Queensferry**




**Dathlu Bywyd Lleol ac Ysbryd Cymunedol**



**Lle i Ddysgu a Datblygu Sgiliau**

## TREF GROESAWGAR QUEENSFERRY – CREU ARGRAFF GYNTAF GREF

Mae'r ffordd oddi ar yr A494 ac i mewn i Queensferry ar hyd y B5129 yn rhoi argraff gyntaf wael o'r dref. Mae o dan oruchafiaeth ormodol o geir, wedi'i gyfyngu gan rwystrau ac yn gwneud fawr ddim i gyhoeddi eich cyrraedd yn Queensferry. Dylai'r ardal ddod yn wir borth a man cyrraedd, nid yn unig i Queensferry ond i'r ardal ehangach. Gellid ailgynllunio'r gyffordd i ganiatáu mwy o fannau gwyrdd a choed, a allai helpu i amgáu a meddalu'r amgylchedd trefol garw. Dylai celf gyhoeddus, arwyddion a nodweddion porth gyhoeddi "Croeso i Queensferry" a chysylltu â hanes a hunaniaeth y dref a'r ardal ehangach.

Cyrhaeddir y stryd fawr o'r dwyrain o dan y bont reilffordd, gyda'i arwydd pont isel a byrddau hysbysebu. Nid yw'r bont hagr a digymeriad hon yn creu profiad cadarnhaol o fynd i mewn y dref. Gallai arwyddion mynegiannol, gweithiau celf a goleuadau helpu i drawsnewid y bont hon yn borth cyffrous a chofiadwy i'r dref.

Mae'r dref yn cysylltu â Lwybr Arfordir Cymru a Llwybrau Beicio Cenedlaethol. Gallai arwyddion wrth y pyrth allweddol i'r dref helpu i ddenu pobl i'r stryd fawr a chynyddu ymwelwyr. Gallai llwybrau troed a beicio wedi'u cynnal yn dda, arwyddion clir, mannau o ddiddordeb a gweithiau celf helpu i greu argraff gadarnhaol a denu pobl i mewn i'r dref, i gefnogi busnesau a chyfleusterau lleol.


- **Ailgynllunio cyffordd yr A494 a'r B5129**
- **Croeso i Queensferry – celf gyhoeddus, arwyddion a nodwedd porth**
- **Trawsnewid mynedfa'r bont reilffordd gyda goleuadau a gweithiau celf**
- **Llwybrau strategol ac arwyddion arnynt i ganol y dref**



Porth gorllewinol presennol




Porth dwyreiniol presennol




Nodweddion porth yn cyhoeddi man gyrraedd



chris jones

rl.

creu lleoedd SIRYFFLINT



Cyfle i ddefnyddio celf i wella'r bont reilffordd


Celf sy'n adlewyrchu hanes y lle



Arwyddion a byrddau gwybodaeth yn adlewyrchu hanes


Mannau cyhoeddus o ansawdd uchel


Nodweddion goleuo pyrth


Cysylltiadau ac arwyddion clir ar gyfer beicwyr

## DATHLU HANES A CHYMERIAD QUEENSFERRY

Mae gan Queensferry hanes a chymeriad diddorol y dylid ei ddathlu drwy'r holl dref. Mae hyn yn cynnwys y Gofeb Ryfel restredig Graddfa II, stryd fawr Victoriaidd, y Bont Jiwbili restredig Graddfa II ac Eglwys y Drindod Sanctaidd.

Gallai'r dref wneud mwy i amlygu a dathlu'r adeiladau allweddol hyn. Byddai ailgynllunio porth y B5441 a chael gwared ar y rhwystrau yn ei gwneud yn haws hefyd i bobl groesi'r ffordd, gan gysylltu'r dref yn well â Chofeb Ryfel  Queensferry. Gellid gwella'r parth cyhoeddus o amgylch asedau cyhoeddus eraill i annog pobl i stopio a threulio amser a denu archwiliadau i hanes lleo trwy fyrddau gwybodaeth a gweithiau celf.

Mae'r Stryd Fawr Victoriaidd draddodiadol o frics coch yn mynd ar goll yn y cymysgedd o siopau a busnesau llawr gwaelod. Mae cymysgedd o liwiau, cymeriadau ac arwyddion yn tynnu sylw oddi ar nodweddion pensaernïol mwy deniadol y stryd. Byddai Cod Dylunio sy'n annog arddulliau a lliwiau penodol ar gyfer blaenau'r siopau helpu cysoni'r stryd a dathlu hanes a hunaniaeth y dref yn well.

- **Ailgynllunio porth y B5441 a chael gwared ar y rheiliau**
- **Cod dylunio ar gyfer adeiladau a phrif strydoedd**
- **Arddull unedig ar gyfer arwyddion a'r parth cyhoeddus**

Ar ddiwedd y diwrnod siopa, mae caeadau rowlio yn cael eu tynnu i lawr ar flaenau'r siopau ac yn dylanwadu'n fawr ar gymeriad y stryd. Maent yn creu ffasadau gwag a hagr ac yn tynnu sylw oddi ar bwyntiau o ddiddordeb, gan greu stryd lai cyfeillgar a chroesawgar, yn enwedig yn ystod gyda'r nos. Er mai'r nod hirdymor fyddai cael gwared yn llwyr ar y caedau hyn neu eu symud i mewn i'r siopau, gallai gweithiau celf ac addurniadau helpu i ddod â bywyd a lliw yn ôl i'r stryd yn y tymor byr ac annog mwy gan yr economi gyda'r nos.

Gallai creu arddull unedig ar gyfer arwyddion a'r parth cyhoeddus ledled y dref helpu i gysylltu mannau o ddiddordeb, adeiladau a nodweddion allweddol i helpu i adrodd stori lawn hanes a chymeriad Queensferry. Mae hyn hefyd yn cynnwys yr enghreifftiau o olion hen arwyddion o fewn y dref y dylid eu gwella ac adeiladu arnynt gan fod y rhain yn gysylltiadau uniongyrchol â gorffennol y dref.


Diffyg cydgysylltu ar hyd y stryd



Olion o orffennol Queensferry o gwmas y dref




Tu blaen siop nad yw'n tynnu oddi wrth bensaernïaeth Victoriaidd




Caeadau bywiog a lliwgar




Pensaernïaeth llawr cyntaf o ansawdd uchel yn cael ei golli




Tu blaen syml ac addas i siopau yn helpu i ddathlu'r adeilad a'r dref




Arddull cydgysylltiedig yn dod â lliw a llawenydd

# STRYD LAWN GWEITHGARWCH

Er mwyn manteisio i'r eithaf ar botensial Ffordd yr Orsaf (y Stryd Fawr) mae angen ei bywiogi. Mae'n lle ymarferol iawn ar hyn o bryd gyda phalmentydd llydan, digon o le parcio ac yn cynnwys siopau, caffis a busnesau. Fodd bynnag, ychydig mae'n ei wneud i ysbrydoli pobl i'w defnyddio na'u gwahodd i aros, treulio amser a gwario.

Mae'r llwybrau llydan yn ased gwych ac yn rhoi digon o le ar gyfer amrywiaeth o weithgareddau a nodweddion a fydd yn helpu i fywiogi'r stryd. Dylid annog siopau a chaffis i ymestyn allan i'r stryd, arddangos nwyddau neu ddarparu seddau caffis. Mae mwy o seddau a lleoedd 'gweithgarwch' yn cynnig lleoedd i bobl stopio, aros a sgwrsio. Mae hyn yn creu amgylchedd mwy cymdeithasol ac yn helpu i greu teimlad cryfach o gymuned. Gall mwy o fannau gwyrdd, gerddi glaw, blychau planhigion a choed stryd helpu i ddiffinio'r 'mannau gweithgarwch' hyn a rhoi cysgod, gwella ansawdd yr aer a meddalu natur drefol y stryd.

- **Polisi a chynllun trwyddedu stryd**
- **Mannau gwyrdd – gerddi glaw a choed stryd**
- **Cysylltu pwyntiau croesi â thirlunio**

Gall y stryd fod yn anodd ei chroesi ar hyn o bryd, yn enwedig ar adegau prysur y dydd. Mae sawl set o bwyntiau croesi ar y stryd, ond mae'r rhain wedi'u cau i mewn gan reiliau sy'n cyfyngu ar gerddwyr ac nid ydynt yn arwydd bod angen i geir arafu. Dylai gwelliannau i'r croesfannau presennol a rhai mwy anffurfiol helpu i gysylltu dwy ochr y stryd yn well, gan ddenu siopwyr ymhellach ar hyd ac ar draws y stryd ac annog pobl i aros yn hirach a gwario mwy. Gellid amlygu pwyntiau croesi trwy gulhau'r ffordd, gan annog ceir i arafu a'i gwneud yn haws croesi. Gellid cysylltu'r pwyntiau croesi hyn â lleoedd wedi eu tirlunio a mannau 'gweithgarwch' i greu mwy o amrywiaeth ar hyd y stryd ac annog cysylltiadau cymdeithasol.



Mae llwybrau llydan yn gaffaeliad ...



... ac yn caniatáu lle ar gyfer tirlunio ...



… sy'n ychwanegu lliw a bywiogrwydd …



… a lleoedd i eistedd a mwynhau …



… a lle i siopau a chaffis ymestyn allan.



Croesfannau gwell, sy'n gyfeillgar i bobl



Seddau a thirlunion cysylltiedig â phwyntiau croesi



Cyfle am bwyntiau croesi anffurfiol

# MYND I'R AFAEL Â SAFLEOEDD AC ADEILADAU SEGUR

Mae gan Queensferry graidd cryf yn Ffordd yr Orsaf, sy'n ffurfio canol y dref. Dylai cynigion yn y Cynllun Creu Lleoedd hwn yn helpu i wella'r craidd ymhellach a chreu tref fwy bywiog a gweithgar. Fodd bynnag, ni ellir cyrraedd y craidd hwn ond trwy 'ymylon' y dref lle mae amrywiol safleoedd, adeiladau a lleoedd sy'n creu argraff wael a gwanhau'r dref. Bydd cryfhau 'ymylon' y dref yn annog mwy o bobl i'w chanol ac yn creu amgylchedd mwy cadarnhaol i ymwelwyr a thrigolion fel ei gilydd.

Rhwng Ffordd yr Orsaf a Phont y Jiwbili mae rhes o unedau a garejis mawr. Mae'r rhain yn tueddu i fod o ansawdd pensaernïol gwael gyda meysydd parcio yn y tu blaen nad ydynt yn cynnig fawr ddim o ran lleoedd caeedig nac ar gyfer gweithgareddau. Mae hyn yn creu amgylchedd o ansawdd gwael ac argraff negyddol o'r dref. Gellid gwella'r stryd hon trwy dirlunio, gwrychoedd neu goed stryd a fydd yn meddalu'r cymeriad trefol, creu lle amgaeedig ar hyd y stryd a sgrinio'n rhannol rai o'r adeiladau anneniadol. Derbyniodd Spinney Motorhomes, tuag at ben Ffordd yr Orsaf o'r stryd, grant i wella tu allan yr adeilad ac mae bellach â ffasâd o bren deniadol o ansawdd uchel. Dylid annog hyn gyda'r safleoedd eraill ar hyd y stryd er mwyn codi ansawdd y bensernïaeth a gwella'r fynedfa i'r dref.

- **Safle cornel hen floc toiledau a garejys**
- **Safleoedd yr Hen Eglwys a BT – cyfleoedd am ddatblygiadau preswyl a masnachol neu barc poced (safle'r Hen Eglwys)**

Mae hen floc toiledau gerllaw'r bont reilffordd ar ben gorllewinol Ffordd yr Orsaf. Mae'r safle hwn am gael ei ailddatblygu ar gyfer dibenion preswyl. Gallai'r datblygiad hwn greu adeilad porth dwyreiniol newydd i'r stryd a dylai wynebu Ffordd yr Orsaf a chreu gweithgarwch tuag ati.

Dylid ailddatblygu adeiladau anghyfannedd a safleoedd gwag o fewn y dref er mwyn osgoi'r argraff negyddol y gall safleoedd o'r fath ei gael ar gymuned ac ansawdd ardal. Gellid ailddatblygu safle'r hen eglwys a chyfnewidfa BT ar ddefnydd preswyl neu fasnachol gan ddibynnu ar angen yr ardal. Gellid datblygu safle'r hen eglwys hefyd yn barc poced bach er budd y gymuned leol.

Dylid ystyried hefyd sut mae ymylon y dref yn rhyngweithio ac yn cysylltu â'r ardal ehangach. Dylai unrhyw rwystrau rhag symud neu ardaloedd o ansawdd gwael gael eu hailddylunio fel eu bod yn hytrach yn annog pobl i mewn i Queensferry.



Ailddatblygu'r bloc toiledau ar gyfer dibenion preswyl …



… ac adeiladau diffaith


Dylunio a deunyddiau o safon uchel


Adeiladau porth


Deunyddiau yn ychwanegu amrywiaeth a gwead i'r stryd


Cyfle am barciau poced


Tirlunio i feddalu amgylcheddau trefol


Defnyddio tirlunio i helpu i guddio safleoedd diwydiannol



Deunyddiau o ansawdd uchel yn cael eu defnyddio ar adeiladau

# CYMRYD BALCHDER MEWN MANNAU CYHOEDDUS

Thema gyffredin ymhlith trefi eraill Sir y Fflint yw'r angen am dull cydgysylltiedig o reoli strydoedd fel eu bod yn lân, diogel, hygyrch ac yn teimlo'n lleoedd braf i fod ynddynt. Mae rhywfaint o'r cyfrifoldeb hwn gan y Cyngor Sir ond mae angen hefyd archwilio rôl y sector preifat a chymunedol mewn cefnogi balchder dinesig a rhannu cyfrifoldeb a budd. Er bod Queensferry yn dangos gwell graddau o lendid na chanol rhai trefi mae heriau'n ymwneud â dodrefn stryd sy'n dirywio, a phalmentydd sy'n gofyn am lanhau dwfn a diffyg gwyrddni mewn rhai lleoedd.

Mae hefyd angen cydgysylltu a rheoli trwyddedu hysbysebion a gweithgareddau stryd fel y gall defnyddwyr canol y dref brofi amgylchedd hygyrch sy'n cydbwyso anghenion busnesau i arddangos eu nwyddau a chael cyfleoedd i ddefnyddio byrddau a chadeiriau pan mae'r busnes yn canolbwyntio ar fwyd a diod.

Mae angen i gytundebau trwyddedu daro cydbwysedd rhwng hygyrchedd a chreu bywyd stryd bywiog mewn ffordd sy'n ymarferol, cymesur ac sy'n diwallu anghenion y gymuned gyfan.

- **Arwyddion porth**
- **Rheiliau i warchod cerddwyr ar y briffordd**
- **Gwybodaeth yng nghanol y dref – arwyddion a mapiau / byrddau gwybodaeth**





## DATHLU BYWYD LLEOL AC YSBRYD CYMUNEDOL

Mae Queensferry wedi ei ganoli'n bennaf ar un ffordd – Ffordd yr Orsaf. Mae'r ffordd hon rhwng y bont reilffordd i'r gogledd-ddwyrain a'r B5129 i'r de-orllewin. Mae'n gryno a chyfyngedig ei natur, ochr yn ochr a'r rhesi o dai teras sy'n creu cymeriad cymdogol cryf. Mae angen defnyddio'r cymeriad hwn felly a'r teimlad o gymuned fel ei brif rinweddau wrth gynllunio ei gynnig i'w ddefnyddwyr.

Mae cipolwg o'r teimlad hwn o gymdogaeth i'w weld mewn nifer o gaffis a nifer bach o siopau cyrchfan (recordiau, chwaraeon, hwylustod) o fewn y stryd. Mae felly sylfaen i weithio ohono wrth ddatblygu ymgyrch farchnata a hyrwyddo syml sy'n canolbwyntio ar werthoedd "lleol", "ar garreg eich drws", "coffi a sgwrs" a'r "gwasanaeth personol i gwsmeriaid".

Dylai buddsoddiad ffisegol ganolbwyntio ar wella adeiladau trwy ddefnyddio deunyddiau a lliwiau traddodiadol, arwyddion, arddangosiadau apelgar ar ffenestri siopau a bwydlenni blasus mewn caffis. I ategu hyn, does dim angen i'r marchnata a'r hyrwyddo fod yn gymhleth. Gallai cymysgedd syml o negeseuon ar byrth allweddol, byrddau 'A' traddodiadol ar y stryd, neu nodweddion megis adlenni siopau mewn paled Queensferry neu faneri stryd lliwgar fod yn effeithiol iawn.

Gallai deunydd hyrwyddo fod mor syml â rhestr leol o siopau, caffis a gwasanaethau, sticeri a feinyl syml a chynllun strydoedd. Mae treftadaeth y gymuned, ei "Phont Las" a chysylltiadau â chroesfannau'r fferi isaf a'r fferi uchaf, yn llinyn y gellid ei ddatblygu hefyd yn nhermau lliwiau, delweddaeth a hyrwyddo'r hanes lleol hwn trwy siopau lleol, waliau caffis ac yn y stryd. Gellid mynegi ei amrywiaeth o gaffis a'u diwylliannau bwyd hefyd trwy ymgyrch leol.

- **Ymgyrch "gymdogaeth" syml**
- **Ategu gwelliannau ffisegol i adeiladau – lliw, deunydd a straeon**
- **Sail o afon a fferïau – lliwiau, hen luniau**
- **Cefnogi busnesau – arddangosiadau ffenestri siopau, bwydlenni caffis, lluniau ar waliau etc**
- **Gwybodaeth i drigolion – rhestrau lleol, mapiau stryd, sticker, mygiau coffi**
- **Datblygu ymgyrch "Brecwast Mawr Queensferry" ymysg yr holl gaffis lleol – hyrwyddo ar y cyd**





## LLE I DDYSGU A DATBLYGU SGILIAU

Mae cyfleoedd o fewn Queensferry i bobl ffynnu a gwella eu sgiliau byw a'u datblygu ymhellach.

Yn ddiweddar mae'r Kings Academy (academi hyfforddi) yn darparu'r rhan fwyaf o hyfforddiant gwallt a harddwch o dan 16 oed i ddisgyblion ysgol (+ 80 o ddisgyblion). Maent hefyd yn ddarparwr allweddol o addysg oedolion, gan gynnwys gwallt, harddwch a gweithgareddau cymunedol i oedolion. Maent wedi eu lleoli ar Ffordd yr Orsaf, gyda phresenoldeb gweledol ar gyfer hyfforddiant lleol a lle i bobl ifanc ac oedolion ddysgu, hyfforddi a naill ai geisio cyflogaeth neu sefydlu eu busnes gwallt a harddwch eu hunain.

Ar draws y ffordd o ganol tref Queensferry, oddi ar (orllewin) Ffordd Caer mae nifer o ddarparwyr addysgol a chymunedol a allai ffurfio cysylltiadau gyda nifer o weithgareddau a mentrau creu lleoedd.

Mae Ymddiriedolaeth Gymunedol Glannau Dyfrdwy, Tŷ-Calon, yn gweithio i helpu i ddarparu addysg gymunedol, hyfforddiant galwedigaethol a chwaraeon mewn Canolfan Gymunedol bwrpasol newydd. Ei nod fydd gwella llesiant pobl leol trwy addysg a chwaraeon a darparu cyfleusterau er budd lles cymdeithasol ar gyfer hamdden ac amser hamdden gyda'r amcan o wella amodau bywyd y trigolion a'r gymuned gyfan.

Law yn llaw â hyn, mae Hwb Cyfle sy'n darparu ar gyfer anghenion pobl ag anableddau dwys a lluosog. Mae'n cefnogi tua 50-60 o bobl y dydd mewn pum gofod gweithgareddau, gan gynnwys gofod gweithdy, cegin ac ystafelloedd aml-ddefnydd. Mae meysydd penodol o ddiddordeb ar gyfer gweithgareddau canol tref yn cynnwys:

- Uwchgylchu beiciau lle maent yn ailbwrpasu beiciau, beiciau tair olwyn a sgwteri a gânt fel rhoddion neu gan y canolfannau ailgylchu. Mae'r rhain yn cael eu hadfer gan y tîm a'u gwerthu i aelodau o'r cyhoedd.
- Gwaith coed lle mae dodrefn yn cael eu hailgylchu i'w hailwerthu, law yn llaw ag ailddefnyddio paledi i wneud byrddau, meinciau, bariau cartref ac eitemau pwrpasol.
- Electroneg lle maent yn ailbwrpasu byrddau cylched o eitemau trydanol i wneud pedalau gitâr. Mae Hwb Cyfle hefyd yn rhedeg siop elusen mewn partneriaeth â NEWCIS (Gwasanaeth Gwybodaeth Gofalwyr Gogledd Ddwyrain Cymru), lle mae pobl y maent yn eu cefnogi yn gwerthu eitemau a roddwyd i'r cyhoedd, gan ddysgu sgiliau gwasanaeth cwsmeriaid, gwerthu a manwerthu.

Yn olaf, mae Plas Derwen yn darparu ar gyfer disgyblion o Flwyddyn 4 i Flwyddyn 11 sydd ag amrywiaeth o anawsterau cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol (SEBD).

Mae'r Uned Cyfeirio Disgyblion hefyd yn cofrestru disgyblion yn narpariaeth Dechrau Newydd yr awdurdod lleol.

- **Datblygu ffenestr siop ar gyfer eu gweithgareddau yng nghanol y dref sy'n arddangos eu gwasanaethau, a darparu lle manwerthu a dysgu.**
- **Defnyddio'u gwasanaethau megis adnoddau gwaith coed Hwb Cyfle i helpu i wneud blychau plannu a dodrefn pren eraill i'w defnyddio fel rhan o wyrddu canol y dref.**
- **Canfod cyfleoedd i bobl ifanc ddysgu am y sector manwerthu a gwasanaethau, gyda phrofiad ymarferol ochr yn ochr â mentoriaid a hyfforddwyr.**



## TYFU TREF WYRDDACH YN QUEENSFERRY

Wrth gydgysylltu ffyrdd o wella'r pyrth i Queensferry ac ychwanegu gwyrddni i'r strydlun o fewn ardal Ffordd yr Orsaf, mae cyfle i grwpiau lleol, sefydliadau a thrigolion gymryd rhan mewn gwyrddu cymdogaeth canol eu tref.

Bydd angen i'r awdurdod priffyrdd lleol gyflawni gwaith gerllaw'r A494 a'r B5129 oherwydd goblygiadau iechyd a diogelwch. Er hyn, gallai grwpiau cymunedol, busnesau a thrigolion lleol gefnogi rhai gweithgareddau gwyrddu ar y stryd.

Gallai gweithgareddau gysylltu â Hwb Tŷ Calon, HFt Sir y Fflint a Plas Derwen yn Shotton. Gallai hyn helpu gyda dysgu oedolion a chymunedol, gweithgareddau cwricwlwm ehangach a cefnogi llwybrau i gyflogaeth.

- **Gwyrddu mynedfeydd allweddol i strydoedd**
- **Plannu o fewn y man gwyrdd rhwng y B5441 a'r B5129**
- **Waliau gwyrdd o fewn y stryd gan ddefnyddio strwythurau sy'n bod eisoes**
- **Plannu coed stryd gyda meinciau i ddarparu cysgod a lle i dreulio amser**
- **Gwneud blychau plannu o bren a uwchgylchir ar gyfer gweiriau hawdd eu cynnal a'u cadw a/neu ddarparu perlysiau bwytadwy – gellid cysylltu hyn â chaffis a bwytai lleol e.e. oregano**
- **Gweithio gyda pherchnogion adeiladau i ddefnyddio dwr ffo adeiladau a blychau gerddi glaw**










## DANGOS LLWYDDIANT

Mae'r angen i ddeall sut i ddiffinio llwyddiant yn bwysig pan ydych chi'n galluogi a gweithredu newid mewn lle fel Queensferry. Mae'n helpu deall y canlyniadau'r ydych yn eu cyrchu a'r broses sydd arnoch ei hangen er mwyn eu cyrraedd. Mae gweledigaeth o lwyddiant yn dda hefyd ar gyfer symbylu ac uno o gwmpas nod cyffredin, gan adeiladau ymddiriedaeth a pherthynas. Mae'n bwysig hefyd gallu dangos i'r sefydliadau hynny'r ydych yn ariannu prosiectau eich bod yn cyrraedd eich allbynnau a chanlyniadau a dangos enillion ar fuddsoddiad. Dengys y diagram enghreifftiau o allbynnau a chanlyniadau yn ôl thema, sy'n ffurfio rhan o fframwaith gwerthuso y byddai partneriaeth ar sail lle yn ei ddefnyddio i fonitro cynnydd.



## Cyhoeddi Queensferry – y Gymdogaeth "Leol"

### ALLBYNNAU

1. Cyfanswm arwynebedd y tir priffordd a gafodd ei wella
2. Cyfanswm arwynebedd y seilwaith gwyrdd a ychwanegwyd neu a gafodd ei wella o ganlyniad i'r cymorth
3. Nifer y symudiadau cerdded / beicio lleol
4. Metrau llinellol o lwybrau teithio llesol wedi'u creu neu eu gwella
5. Cyfrif ansawdd aer
6. Nifer ymwelwyr o ardaloedd preswyl cyfagos

### Beth sydd arnom eisiau ei gyflawni?

**Lle sy'n hawdd ei ganfod, i alw i mewn iddo a threulio amser, boed chi'n byw yn lleol neu'n teithio trwy lannau Dyfrdwy**

### CANLYNIADAU

1. Mwy o ymwybyddiaeth o Queensferry yn ardal Glannau Dyfrdwy
2. Mwy o symudedd ar draws y gymuned gyfan
3. Gwell profiad i ymwelwyr a defnyddwyr o ran ansawdd amgylcheddol
4. Mwy o ymdeimlad o le a chyrchfan leol
5. Mwy o gyfleoedd i archwilio ac ymwneud â chanol y dref
6. Mwy o ymdeimlad o groeso a chydlyniant ffisegol
7. Twf economaidd lleol a chynaliadwyedd

## Datgelu Cymeriad Queensferry

### ALLBYNNAU

1. Cyfanswm arwynebedd mannau cyhoeddus gafodd eu gwella
2. Nifer yr adeiladau masnachol wedi'u gwella a'u hailbwrpasu
3. Metrau sgwâr o arwynebedd llawr a gafodd eu gwella
4. Nifer y dibenion canol tref a gafodd eu creu / cefnogi
5. Nifer y defnyddwyr / ymwelwyr
6. Cyfradd eiddo gwag
7. Amrywiaeth o ddibenion a gweithgareddau canol y dref
8. Amser a dreulir gan ddefnyddwyr canol y dref
9. Gwariant defnyddwyr canol y dref
10. Boddhad gyda chanol y dref
11. Newid yng nghanfyddiad defnyddwyr canol y dref

### Beth sydd arnom eisiau ei gyflawni?

**Caiff personoliaeth Queensferry ei adrodd trwy leoedd, adeiladau a strydoedd, sy'n apelio at bobl leol ac at bobl sy'n galw heibio**

### CANLYNIADAU

1. Mwy o falchder dinesig
2. Ansawdd gweithgareddau masnachol a gweithgarwch cyffredinol o fewn y strydlun
3. Mwy o ymdeimlad o le a chyrchfan leol
4. Gwell llesiant economaidd a chymdeithasol lleol
5. Meithrin hyder, teyrngarwch a thwf cynaliadwy

## Stryd Lawn Gweithgarwch

### ALLBYNNAU

1. Cyfanswm arwynebedd y tir priffordd a gafodd ei wella
2. Cyfanswm arwynebedd y seilwaith gwyrdd a ychwanegwyd neu a gafodd ei wella o ganlyniad i'r cymorth
3. Cyfanswm arwynebedd safleoedd canol y dref a ailddefnyddiwyd
4. Nifer y defnyddwyr / ymwelwyr
5. Cyfradd eiddo gwag
6. Amrywiaeth dibenion a gweithgareddau canol y dref
7. Amser a dreulir gan ddefnyddwyr canol y dref
8. Gwariant defnyddwyr canol y dref
9. Boddhad gyda chanol y dref
10. Newid yng nghanfyddiad defnyddwyr canol y dref

### Beth sydd arnom eisiau ei gyflawni?

**Lle mae ffordd yn dod yn stryd, gyda phobl yn teimlo'n saffach, a chael mwy o gyfleoedd i dreulio amser ac ymwneud â busnesau lleol a gweithgareddau eraill**

### CANLYNIADAU

1. Mwy o symudedd ar draws y gymuned gyfan
2. Gwell profiad i ymwelwyr a defnyddwyr
3. Mwy o ymdeimlad o le a chyrchfan leol
4. Mwy o gyfleoedd i archwilio a phrofi busnesau a gweithgareddau canol y dref
5. Mwy o ymdeimlad o groeso a chydlyniant ffisegol
6. Twf economaidd lleol a chynaliadwyedd

## Ymdrin â'r Ymylon – Safleoedd ac Adeiladau

### ALLBYNNAU

1. Nifer adeiladau canol y dref a ddaeth yn ôl i ddefnydd sy'n ategu cynnig canol y dref
2. Nifer yr adeiladau masnachol newydd
3. Nifer y cartrefi newydd
4. Metrau sgwâr o arwynebedd llawr a gafodd ei wella
5. Nifer y lleoedd at ddefnydd y gymuned a gafodd eu creu / cefnogi
6. Nifer y defnyddwyr / ymwelwyr
7. Cyfradd eiddo gwag
8. Amrywiaeth o ddibenion a gweithgareddau canol y dref
9. Amser a dreulir gan ddefnyddwyr canol y dref
10. Gwariant defnyddwyr canol y dref
11. Boddhad gyda chanol y dref
12. Newid yng nghanfyddiad defnyddwyr canol y dref

### Beth sydd arnom eisiau ei gyflawni?

**Dod ag adeiladau a safleoedd a danddefnyddir yn rhan o brofiad canol y dref mewn ffordd sy'n ychwanegu at deimlad cymdogol Queensferry**

### CANLYNIADAU

1. Gweithgarwch mwy amrywiol yng nghanol y dref
2. Mwy o amrywiaeth mewn cymdogaethau
3. Mwy o gefnogaeth, gweithgarwch a gwariant gan y gymuned
4. Mwy o ymdeimlad o le a chyrchfan leol
5. Gwell llesiant economaidd a chymdeithasol
6. Mwy o ymdeimlad o groeso a chydlyniant cymunedol

## Rheoli'r Lle

### ALLBYNNAU

1. Amser a dreulir gan ddefnyddwyr canol y dref
2. Gwariant defnyddwyr canol y dref
3. Boddhad gyda chanol y dref
4. Lleihad mewn lefelau troseddu
5. Newid yng nghanfyddiad defnyddwyr o ganol y dref

### Beth sydd arnom eisiau ei gyflawni?

**Lle sy'n teimlo'i fod yn cael gofal rhwng y cyngor lleol, y gymuned a busnesau**

### CANLYNIADAU

1. Mwy o deimlad o gymuned a balchder dinesig
2. Gwell canfyddiad o ddiogelwch a llesiant personol
3. Mwy o gydweithio ar draws cymdogaeth canol y dref
4. Teimlad o fywiogrwydd o fewn canol y dref

## Ychwanegu at y Teimlad o Gymdogaeth

### ALLBYNNAU

1. Nifer o weithgareddau marchnata a hyrwyddo
2. Nifer o adeiladau canol y dref sydd wedi cofleidio paled lliwiau Queensferry
3. Nifer o ddigwyddiadau, ymgyrchoedd a gweithgareddau sy'n cefnogi negeseuon Queensferry
4. Nifer o drigolion a gwirfoddolwyr sy'n ymwneud â phrosiectau cymunedol
5. Nifer o fusnesau canol y dref a gafodd eu hyfforddi / mentora / cefnogi

### Beth sydd arnom eisiau ei gyflawni?

**Stryd sy'n adnabyddus am y croeso a geir yn Queensferry sy'n seiliedig ar wasanaeth personol, amrywiaeth a'i natur leol**

### CANLYNIADAU

1. Mwy o ymdeimlad o Queensferry fel rhywle lleol, ar garreg eich drws
2. Mwy o weithgarwch defnyddwyr ac ymwelwyr canol y dref
3. Mwy o deimlad o groeso, cydlyniant cymunedol a theyrngarwch
4. Mwy o deimlad o le o chyrchfan leol
5. Gwell llesiant economaidd a chymdeithasol lleol

### Lleoedd ar gyfer Sgiliau a Datblygiad a Llwybrau Lleol

**ALLBYNNAU**

1. Nifer o weithgareddau allgymorth cymunedol
2. Nifer o bobl a gafodd eu uwchsgilio a'u hyfforddi
3. Nifer o lwybrau cyflogaeth a agorwyd
4. Nifer o leoedd a ddanddefnyddir yng nghanol y dref a ddefnyddiwyd ar gyfer gweithgareddau cymuned
5. Nifer o brosiectau amgylcheddol a gefnogwyd

**Beth sydd arnom eisiau ei gyflawni?**

**Cysylltu amrywiaeth o bobl yng nghanol tref Queensferry wrth dreialu syniadau, bywiogi lleoedd a danddefnyddir a defnyddio sgiliau lleol i ychwanegu gwerth at y profiad o gymdogaeth**

**CANLYNIADAU**

1. Mwy gyfleoedd partneriaethau a rhwydweithio rhwng sefydliadau lleol a strategol
2. Gwell llesiant cymunedol o fewn cymuned Queensferry
3. Mwy o gyfleoedd am ganol tref mwy amrywiol a chymunedol

### Gwyrddu Queensferry – Rôl y Gymuned

**ALLBYNNAU**

1. Nifer o brosiectau / mentrau plannu cymunedol
2. Cyfanswm arwynebedd seilwaith gwyrdd a gafodd ei ychwanegu neu wella o ganlyniad i gymorth
3. Nifer o wirfoddolwyr
4. Nifer o weithgareddau rhagnodi cymdeithasol
5. Cyfrif ansawdd aer
6. Cynnydd mewn cyfrif bioamrywiaeth

**Beth sydd arnom eisiau ei gyflawni?**

**Mae gwyrddni yn denu pobl, gyda busnesau yn gweld manteision canol tref sy'n wyrddach lle mae pobl yn treulio amser, ffryntiadau bywiog a llesiant cymdogol ehangach**

**CANLYNIADAU**

1. Gwell llesiant cymunedol yn sgil presenoldeb mwy o wyrddni yng nghanol y dref
2. Seilwaith gwyrdd yn galluogi treulio mwy o amser a gwell mwynhad o amgylchedd canol y dref
3. Mwy o wytnwch i newid yn yr hinsawdd
4. Profiad apelgar i bawb

# FFYRDD O WEITHIO

**Datblygu a Gweithredu**

Mae gweithredu'r Cynllun Creu Lleoedd hwn yn dibynnu ar ddull partneriaeth lle mae sefydliadau strategol a lleol yn dod â'u hamcanion unigol eu hunain i ffurfio set o gynigion ar y cyd a fydd yn elwa ar ei gilydd, ac yn bwysicach, o fudd i ganol tref Queensferry a'r cymdogaethau o'i gwmpas. Mae'r cyfleoedd sydd o fewn y weledigaeth a'r strategaeth hon yn gofyn am gyfuniadau gwahanol o bartneriaid, adnoddau ac amserlen ar gyfer eu datblygu a'u gweithredu.

Mae ffactorau allweddol gweithredu llwyddiannus wrth Greu Lleoedd yn cynnwys:

- Deall cryfderau unigol gan gynnwys gwybodaeth, arbenigedd ac asedau ffisegol a sut y gellir cydgyfeirio'r rhain.
- Cyfathrebu a chydgysylltu ar lefel strategol ac wrth weithredu.
- Gweithio o fewn cod dylunio cyffredin sy'n sicrhau cysondeb mewn amgylchedd adeiledig a pharth cyhoeddus ac sy'n cyrraedd targedau'n ymwneud â newid hinsawdd a chynaliadwyedd.
- Cysylltu anghenion trigolion lleol ag amrywiol lwybrau at ddysgu, iechyd a llesiant, gweithgarwch corfforol a chyflogaeth.
- Cyflwyno hunaniaeth unedig i le fel Queensferry, gan barchu hunaniaeth sefydliadau unigol.

**Gweithio mewn Partneriaeth**

Mae proses Cynllun Creu Lleoedd Cyngor Sir y Fflint eisoes wedi cychwyn dull partneriaeth o weithio ers iddo adnabod yr angen am dull cydweithredol o Greu Lleoedd mewn gwahanol ganol trefi yn Sir y Fflint ym mis Mehefin 2022.

Mae'r Cyngor wedi sefydlu Grŵp Lleoedd, sy'n rhan o strwythur llywodraethu'r Grŵp Adferiad Economaidd. Diben y grŵp yw meddwl, cynllunio a gweithredu blaenoriaethau mewn modd cydlynus o fewn canol tref o ran yr amgylchedd adeiledig gan gynnwys ailddatblygu neu wella adeiladau, gwelliannau i'r parth cyhoeddus, seilwaith gwyrdd a mentrau teithio llesol. Mae gan y grŵp rôl hefyd wrth drafod a chytuno ar flaenoriaethau ariannu, gan gynnwys gwneud penderfyniadau wrth ddefnyddio'r cyllid sydd ar gael i'r Cyngor i weithredu Creu Lleoedd.

Cafodd adolygiad o'r Grŵp Lleoedd ei gwblhau, a chanfuwyd cyfleoedd i wella'i effeithiolrwydd cyffredinol gan gynnwys: i) Gwella cydweithio a chydlynu Creu Lleoedd ar draws y cyngor ii) datblygu rhaglen waith flynyddol sy'n edrych yn ôl ar weithgarwch creu lleoedd sy'n cael ei arwain gan wahanol wasanaethau / swyddogion ar draws y cyngor a gwella'r ffordd o fonitro ac adrodd gweithgarwch Creu Lleoedd a'r graddau mae wedi gweithredu'n unol â Chynlluniau Creu Lleoedd a gymeradwywyd.


Mae'r Cyngor hefyd wedi sefydlu grŵp gwasanaethau sy'n canolbwyntio ar bobl ac sy'n ymestyn dros amrywiaeth o gyrff a sefydliadau allanol yn bennaf sydd ag elfen o ganolbwyntio ar bobl yn eu darpariaeth.

Caiff rhai gwasanaethau mewnol Cyngor Sir y Fflint eu cynrychioli hefyd. Mae'r grŵp hwn yn cynnwys cynrychiolwyr o Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, Heddlu Gogledd Cymru, Cyngor Gwirfoddol Lleol Sir y Fflint, ymysg sefydliadau eraill.

Wrth dyfu'r dull partneriaeth hwn, mae angen i'r Cynllun Creu Lleoedd ystyried grwpiau cymunedol lleol ar lawr gwlad yn ogystal â'r sector busnes lleol, fel bod cynghrair deg yn cael ei ffurfio rhwng y sectorau cyhoeddus, preifat a chymunedol / gwirfoddol.

Bydd angen trafod pellach rhwng sefsydliadau ynghylch ffurf y bartneriaeth hon, fel bod ganddi ddiben, nodau ac amcanion, y raddfa iawn o weithredu, gwerthoedd a ffyrdd o weithio y cytunwyd arnynt. Byddai angen cynllunio partneriaeth o'r fath fel ei bod yn:

- Cefnogi, galluogi a chydgyflawni gweithredu ar sail lle yn Queensferry
- Darparu lle cyffredin i sefydliadau rannu syniadau ac atebion
- Hyrwyddo Queensferry o fewn a'r tu allan i'r gymuned leol, a
- Gwneud y lle yn well ar hyn o bryd ac i genedlaethau'r dyfodol.



creu lleoedd
SIRYFFLINT

Roberts Limbrick

chris jones

creu lleoedd
SIRYFFLINT